

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Ieithoedd Swyddogol)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor
Mai 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8505
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Ieithoedd Swyddogol)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor
Mai 2012



Pwerau'r Pwyllgor

Nodir ein pwerau i graffu ar Ffiliau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheolau Sefydlog 17 a 26. Ceir y rhain yma: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-assembly-guidance.htm>

Aelodau'r Pwyllgor

Aelod Pwyllgor	Plaid	Etholaeth neu Ranbarth
Ann Jones (Cadeirydd)	Llafur	Dyffryn Clwyd
Peter Black*	Democratiaid Rhyddfrydol	Gorllewin De Cymru
Janet Finch-Saunders	Ceidwadwyr	Aberconwy
Mike Hedges	Llafur	Dwyrain Abertawe
Mark Isherwood	Ceidwadwyr	Gogledd Cymru
Bethan Jenkins	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
Gwyn R Price	Llafur	Islwyn
Ken Skates	Llafur	De Clwyd
Rhodri Glyn Thomas*	Plaid Cymru	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Joyce Watson	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru

***Cynigwyd y Bil gan Gomisiwn y Cynulliad. O'r herwydd, nid aeth Rhodri Glyn Thomas a Peter Black, yn Gomisiynwyr y Cynulliad, i'r cyfarfodydd lle y trafodwyd y Bil.**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.48, dirprwyodd Alun Ffred Jones ar ran Rhodri Glyn Thomas ym mhob cyfarfod ar wahân i'r cyfarfodydd ar 22 Chwefror a 1 Mawrth 2012, pan ddirprwyodd Elin Jones AC ar ei ran.

Dirprwyodd Eluned Parrott ar ran Peter Black yn ystod ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor o'r Bil.

Cynnwys

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad	14
2. Cefndir.....	16
3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	19
Cefndir	19
Tystiolaeth gan dystion.....	19
Yr angen am y Bil a sylwadau cyffredinol.....	19
Cydbwysedd rhwng wyneb y Bil a'r Cynllun	20
Defnyddio Cynllun ieithoedd swyddogol	21
Tystiolaeth gan y Comisiynydd.....	21
Ein barn ni.....	22
4. Adran 1- Diwygio adran 35 o'r Ddeddf (Trin yn gyfartal).....	24
Cefndir	24
Tystiolaeth gan dystion.....	25
Tystiolaeth gan y Comisiynydd.....	27
Ein barn ni.....	28
5. Adran 2 – Diwygio Atodlen 2 i'r Ddeddf (Comisiwn y Cynulliad)	29
.....	29
Cefndir	29
Is-baragraffau newydd (5) a (6), a Chofnod cwbl ddwyieithog o drafodion	30
Tystiolaeth gan dystion	30
Tystiolaeth gan y Comisiynydd	37
Ein barn ni.....	41
Is-baragraff newydd (8).....	43
Tystiolaeth gan dystion	43
Tystiolaeth gan y Comisiynydd	44
Ein barn ni.....	45
Is-baragraff newydd (9).....	45
Tystiolaeth gan dystion	45

Tystiolaeth gan y Comisiynydd	46
Ein barn ni.....	47
Is-baragraff newydd (10).....	48
Tystiolaeth gan dystion	48
Tystiolaeth gan y Comisiynydd	49
Ein barn ni.....	50
6. Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.....	51
Cefndir.....	51
Sylwadau cyffredinol.....	51
Tystiolaeth gan dystion	51
Tystiolaeth gan y Comisiynydd	53
Ein barn ni.....	54
Cynllun gweithredu a thargedau	55
Tystiolaeth gan dystion	55
Tystiolaeth gan y Comisiynydd	57
Ein barn ni.....	59
Yr iaith a ddefnyddir.....	60
Tystiolaeth gan dystion	60
Tystiolaeth gan y Comisiynydd	61
Ein barn ni.....	61
Cyfieithu ymatebion i ymgynghoriadau	61
Tystiolaeth gan dystion	61
Tystiolaeth gan y Comisiynydd	63
Ein barn ni.....	64
Sgiliau dwyieithog a recriwtio.....	64
Tystiolaeth gan dystion	64
Tystiolaeth gan y Comisiynydd	67
Ein barn ni.....	68
Paragraff 103 o'r Cynllun.....	69
Tystiolaeth gan dystion	69

Tystiolaeth y Comisiynydd	69
Ein barn ni.....	70
7. Goblygiadau Ariannol.....	71
Cefndir.....	71
Tystiolaeth gan dystion.....	71
Tystiolaeth gan y Comisiynydd.....	74
Ein barn ni.....	76
8. Tystion	79
9. Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	81

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion

Mae ein casgliadau a'n hargymhellion wedi'u nodi isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Mae'r cyfeiriadau at y Comisiynydd yn gyfeiriadau at Gomisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg. Dylid darllen cyfeiriadau at "is-baragraff newydd" fel cyfeiriad at is-baragraff newydd o baragraff 8 o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Ewch i dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol.

Rydym yn nodi bod y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi symud ymlaen o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac nad yw'r Mesur hwn yn berthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol nac i Gomisiwn y Cynulliad.

tudalen 22

Rydym hefyd yn nodi bod y rhan fwyaf o dystion o blaid yr angen am y Bil.

tudalen 22

Felly, rydym yn cytuno bod angen Bil i ddiweddarau'r fframwaith deddfwriaethol ar ddarparu gwasanaethau dwyieithog fel y mae'n berthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i Gomisiwn y Cynulliad.

tudalen 22

Rydym yn nodi na chawsom wrthwynebiad i'r defnydd o gynllun iaith i gyflawni dyletswyddau Comisiwn y Cynulliad fel y nodir yn y Bil. Felly, rydym yn fodlon â'r dull hwn.

tudalen 22

Gan hynny, ac yn sgîl y dystiolaeth a gafwyd, rydym yn fodlon ag egwyddorion cyffredinol y Bil.

tudalen 23

Fodd bynnag, ni chawsom ein hargyhoeddi y cafwyd y cydbwysedd cywir rhwng y gofynion penodol sydd wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil a'r darpariaethau sydd i'w cynnwys yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Mae ein barn benodol yn hynny o beth, ac ar agweddau eraill ar y Bil, wedi'u nodi ym mhenodau 4 a 5 o'r adroddiad hwn.

tudalen 23

Fel nifer o'r tystion, rydym yn croesawu is-adran newydd (1) i adran 35 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a'i gyfeiriad at y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol y Cynulliad.

tudalen 28

Rydym hefyd yn croesawu'r cyfeiriad yn is-adran newydd (1B) at "hawl" i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad ac rydym yn cytuno bod hyn yn welliant ar y geiriad a oedd wedi'i gynnwys yn y Bil drafft a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer ymgynghori arno yn 2011. tudalen 28

Rydym yn nodi bod *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, y mae'r Bil hwn yn ceisio ei ddiwygio, yn diffinio Trafodion y Cynulliad fel unrhyw drafodion o'r Cynulliad, pwyllgor y Cynulliad neu is-bwyllgorau pwyllgorau o'r fath. tudalen 28

Nodwn hefyd, drwy gyfeirio at 'gynnal' trafodion y Cynulliad yn is-adrannau (1A) a 'chymryd rhan yn' nhrefodion y Cynulliad yn is-adran newydd (1B), bod hyn o bosibl yn cyfyngu ar y graddau y gall dinasyddion ymgysylltu â'r Cynulliad yn eu dewis iaith. tudalen 28

Gan hynny, rydym yn cydymdeimlo â'r rhai sydd wedi awgrymu y dylid diwygio is-adrannau newydd (1A) a (1B) er mwyn ehangu eu cwmpas fel y gall dinasyddion ymgysylltu'n llawn, yn eu dewis iaith,

- â thrafodion y Cynulliad ar ôl iddynt ddigwydd (er enghraifft, drwy ddarllen trawsgrifiadau o'r Cyfarfod Llawn neu gyfarfodydd pwyllgor);

- â gweithgareddau'r Cynulliad heblaw trafodion y Cynulliad.

tudalen 28

Argymhelliad 1. Rydym felly yn argymell y dylai'r Comisiynydd ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai cyflwyno gwelliannau i wneud newidiadau o'r fath. tudalen 28

Rydym wedi ystyried yn ofalus iawn y dystiolaeth gan y tystion a'r Comisiynydd ynghylch a ddylid rhoi'r ddyletswydd i ddarparu Cofnod cwbl ddwyieithog (o'r Cyfarfod Llawn) ar wyneb y Bil. tudalen 41

Rydym wedi ein hargyhoeddi ei bod yn briodol gwneud hynny. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried y dystiolaeth helaeth o blaid y dull gweithredu hwn, nid yn unig gan y tystion y clywsom ganddynt, ond hefyd gan y rheini a ymatebodd i ymarfer ymgynghori'r Comisiwn ar y Bil drafft a'r Cynllun drafft yn 2011. Hefyd, rydym yn cytuno gyda'r rhai sydd wedi tyngu sylw at bwysigrwydd symbolaidd

Cofnod y Trafodion i'r iaith Gymraeg, yn enwedig o ystyried ei statws yn Gofnod swyddogol prif sefydliad democrataidd Cymru.

tudalen 41

Os mai bwriad Comisiwn presennol y Cynulliad yw y dylid cyhoeddi Cofnod y Trafodion yn ddwyieithog bob amser, ni welwn reswm rhesymegol pam na ddylai'r ymrwymiad ymddangos ar wyneb y Bil. Credwn fod y dull gweithredu hwn yn fwy eglur ac yn fwy sicr na phe bai ymrwymiad yn ymddangos yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

tudalen 41

Pe bai Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol yn penderfynu nad yw'n dymuno cyhoeddi Cofnod dwyieithog o drafodion, credwn mai'r ffordd briodol i weithredu'r newid hwn fyddai drwy gyfrwng Bil arall yn hytrach na newid y Cynllun.

tudalen 41

Cytunwn â Chymdeithas yr Iaith fod is-baragraff newydd (5), fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, eisoes yn nodi rhestr o bethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Cynllun.

tudalen 41

Rydym yn nodi tystiolaeth Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, fel y nodir ym mharagraffau 73 a 75, ynghylch dull posibl o ailddrafftio is-baragraff newydd (5).

tudalen 42

Rydym yn nodi bod *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, y mae'r Bil hwn yn ceisio ei ddiwygio, yn diffinio trafodion y Cynulliad fel unrhyw drafodion y Cynulliad, pwyllgorau'r Cynulliad neu is-bwyllgorau pwyllgorau o'r fath.

tudalen 42

Argymhelliad 2. Ar sail ein sylwadau uchod, rydym yn argymhell y dylai'r Comisiynydd gyflwyno gwelliannau wedi'u geirio'n addas i sicrhau bod yn rhaid i'r Cynllun gynnwys darpariaeth yn ymwneud â'r canlynol, heb gyfyngu ei hun iddynt:

- cyfieithu ar y pryd o un iaith swyddogol i'r llall;
- Cofnod cwbl ddwyieithog o holl drafodion y Cynulliad;
- system ar gyfer categoreiddio pa ddogfennau eraill y dylid eu cyhoeddi yn y ddwy iaith swyddogol;
- cynllun gweithredu corfforaethol yn nodi targedau penodol, amserlenni a chyfrifoldebau;

**-set o ddangosyddion perfformiad allweddol; a
-strategaeth sgiliau dwyieithog.** tudalen 42

Yn ein barn ni, byddai'r dull hwn yn rhoi eglurder i'r dinesydd ynghylch y math o wasanaethau y byddai rhwymedigaeth ar Gomisiwn y Cynulliad i'w darparu'n ddwyieithog. tudalen 42

Wrth ddod i'r casgliadau hyn, rydym hefyd wedi ystyried y dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â'r Cynllun, sydd wedi'i hamlinellu ym mhennod 6. tudalen 42

Rydym yn cytuno â Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru, a awgrymodd fod effaith is-baragraff newydd (6) yn amwys ac aneglur. tudalen 42

Mae gennym rai amheuon hefyd ynghylch goblygiadau'r ddarpariaeth hon i Gomisiwn y Cynulliad o ran darparu gwasanaethau dwyieithog. tudalen 42

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell, felly, y dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau bod is-baragraff newydd (6) yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y diben a fwriadwyd iddo. tudalen 43

Nid ydym yn derbyn o anghenraid bod *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* mor gyfyngol ag yr awgrymwyd gan y Comisiynydd ym mharagraff 110. tudalen 45

Serch hynny, nid ydym yn credu y dylai'r Cynllun fod yn atebol i gorff allanol ac rydym yn cytuno gyda'r Comisiynydd y dylai fod yn atebol i'r Cynulliad. tudalen 45

O dan yr amgylchiadau, rydym yn fodlon â'r gofyniad yn is-baragraff newydd (8) i ddarparu ar gyfer gosod adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad i'w alluogi i graffu ar gyflawniadau Comisiwn y Cynulliad o ran ei ymrwymadau o dan y Cynllun. tudalen 45

Wrth lunio'r farn hon, rydym hefyd wedi ystyried y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â'r Cynllun ac a nodir ym mhennod 6. tudalen 45

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn cytuno gyda barn undeb y PCS y dylai'r Cynllun gael ei adolygu'n ffurfiol o leiaf unwaith bob Cynulliad.

Yn ein barn ni, mae'r dull hwn yn fwy hyblyg ac mae'n osgoi'r posibilrwydd na fydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn ystod unrhyw Gynulliad sy'n para dim ond pedair blynedd. tudalen 47

Argymhelliad 4. Felly, rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn cyflwyno gwelliant yn nodi y dylid adolygu'r Cynllun yn ffurfiol o leiaf unwaith yn ystod pob Cynulliad.

tudalen 47

Ni chawsom ein hargyhoeddi bod angen cyfeirio'n benodol at yr angen i ymgynghori yn is-baragraff newydd (10) gan ein bod yn credu bod hyn yn ymhlyg yn y ddarpariaeth. Yn ogystal, nid ydym o'r farn bod angen ychwanegu rhagor o sefydliadau at y rhestr y cyfeiriwyd ati yn is-is-baragraff newydd (10) (b). tudalen 50

Gan hynny, rydym yn fodlon ag is-baragraff newydd (10) fel y'i drafftwyd. tudalen 50

Rydym yn cytuno â'r tystion sydd wedi awgrymu bod angen gwella agweddau ar y Cynllun ac rydym yn cyfeirio'n benodol at y rhain yng ngweddill y bennod hon. tudalen 54

Cytunwn â'r Comisiynydd nad oes angen cynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol arall o gofio'r ymgynghoriadau allannol cymharol eang a gynhaliwyd eisoes a hefyd y ffaith bod angen i'r Cynllun gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad yn y Cynulliad cyn y gellir ei fabwysiadu. tudalen 54

Argymhelliad 5. Fodd bynnag, croesawn fwriad Comisiwn y Cynulliad i ymgynghori â'i staff ynghylch y Cynllun cyn iddo gael ei fabwysiadu ac rydym yn argymell y dylid sicrhau bod crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw ar gael i'r staff unwaith y caiff ei gwblhau. tudalen 55

Argymhelliad 6. Fel rhan o'r broses hon, argymhellwn yn gryf fod Comisiwn y Cynulliad yn cwrdd ag undeb y PCS i drafod rhai o'i bryderon ynghylch y Cynllun, yr ydym yn cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. tudalen 55

Rydym eisoes wedi argymell y dylid cynnwys cynllun gweithredu gyda thargedau yn y Cynllun ac y dylid cynnwys gofyniad penodol i'r perwyl hwn ar wyneb y Bil. tudalen 59

Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn ymwybodol o'r gefnogaeth gref i gynllun gweithredu a thargedau a phwysigrwydd dogfennau o'r fath i'r tystion. tudalen 59

Argymhelliad 7. Fel nad oes unrhyw amheuaeth, rydym yn argymell yn gryf y dylid diwygio'r Cynllun i gynnwys cynllun gweithredu a thargedau a fydd yn galluogi i'r Cynllun gael ei fonitro'n effeithiol a bod gwaith craffu effeithiol arno, os nad yw'r Comisiynydd yn bwriadu diwygio'r Bil fel yr awgrymir yn Argymhelliad 2. tudalen 59

Argymhelliad 8. Rydym hefyd yn argymell y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y Cynllun i egluro'r berthynas rhwng y Cynllun yn ei gyfanrwydd a dogfennau cysylltiedig, fel y cynllun gweithredu a argymhellwn, y strategaeth sgiliau dwyieithog a'r cynlluniau meysydd gwasanaeth unigol amrywiol y cyfeiriodd Comisiwn y Cynulliad atynt. tudalen 59

Oherwydd sut y drafftwyd y Cynllun ar hyn o bryd, ni chredwn fod digon o eglurder ynghylch sut y mae'r dogfennau hyn yn cysylltu â'i gilydd ac, o ganlyniad, sut y bydd y system gyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog yn gweithio mewn gwirionedd. Yn ein barn ni, byddai cynnwys y wybodaeth y cyfeirir ati yn Argymhelliad 8 yn ei gwneud yn haws i ddeall y system ac yn hwyluso'r broses graffu. tudalen 59

Rhannwn farn nifer o'r tystion fod geiriad y Cynllun yn amwys mewn mannau. Nodwn fod nifer o'r tystion, wrth gyfleu'r farn hon, wedi awgrymu geiriad amgen. tudalen 61

Argymhelliad 9. Felly, rydym yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad adolygu'r holl awgrymiadau a wnaed gan y tystion i wella geiriad y Cynllun gyda'r bwriad o'i wneud yn ddogfen fwy pendant a llai amwys. tudalen 61

Rydym eisoes wedi argymell ein bod yn credu y dylid bod system ar gyfer categoreiddio pa ddogfennau y dylid eu cyhoeddi yn y ddwy iaith swyddogol. tudalen 64

Argymhelliad 10. O gofio'r dystiolaeth a glywsom gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn ailystyried y materion o amgylch y broses o grynhai'r ymatebion i ymgynghoriadau a geir yn Gymraeg yn unig.
tudalen 64

Argymhelliad 11. O ganlyniad, rydym hefyd yn argymell y dylai'r Comisiynydd ailystyried drafftio paragraff 51 o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft ac, os yw'n penderfynu derbyn argymhelliad 10, ystyried goblygiadau'r argymhelliad hwnnw o ran yr ymatebion i ymgynghoriadau a geir yn un o'r ieithoedd swyddogol yn unig.
tudalen 64

Rydym eisoes wedi argymell y dylid cynnwys strategaeth sgiliau dwyieithog yn y Cynllun yn ogystal â gofyniad penodol i'r perwyl hwn ar wyneb y Bil.
tudalen 68

Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn ymwybodol o'r gefnogaeth gref i gynllun gweithredu a thargedau a phwysigrwydd dogfennau o'r fath i'r tystion.
tudalen 68

Argymhelliad 12. Fel nad oes unrhyw amheuaeth, rydym yn argymell yn gryf y dylid diwygio'r Cynllun i gynnwys strategaeth sgiliau dwyieithog, os nad yw'r Comisiynydd yn bwriadu diwygio'r Bil fel yr awgrymir yn Argymhelliad 2.
tudalen 68

Credwn y byddai cynnwys strategaeth sgiliau dwyieithog yn y Cynllun yn galluogi dull mwy integredig a chydlynol o ddarparu gwasanaethau dwyieithog gan Gomisiwn y Cynulliad.
tudalen 68

Ar sail y dystiolaeth a gawsom, rydym yn ystyried bod yn rhaid i'r strategaeth sgiliau dwyieithog gynnwys targedau ac amcanion clir a nodi'n glir sut y cânt eu cyrraedd â'u bodloni.
tudalen 68

Argymhelliad 13. Nodwn fod y strategaeth sgiliau dwyieithog eisoes wedi'i chwblhau. Os na ddilynnir y dull a awgrymwn, rydym yn argymell y dylid ei adolygu i sicrhau bod hynny'n digwydd.
tudalen 68

Argymhelliad 14. Rydym wedi nodi barn undeb y PCS a geir ym mharagraff 190 o'r adroddiad a rhannwn ei bryderon. O gofio y bydd y strategaeth sgiliau dwyieithog yn cael effaith uniongyrchol ar staff Comisiwn y Cynulliad, rydym yn argymhell y dylid ymgynghori â staff a'r PCS yn ei chylch fel rhan o'r ymarfer ymgynghori y cyfeirir ato yn Argymhellion 5 a 6. tudalen 68

Gwnawn ragor o sylwadau ar y strategaeth sgiliau dwyieithog yn yr adran ar baragraff 103 o'r Cynllun a phennod 7 ar y Goblygiadau Ariannol. tudalen 69

Argymhelliad 15. Ar ôl ystyried y dystiolaeth mewn perthynas â pharagraff 103 o'r Cynllun, rydym yn argymhell y dylid ei ailddrafftio i roi mwy o eglurder ynghylch sut y bydd y polisi'n cael ei roi ar waith a beth y mae'n ei olygu'n ymarferol i'r staff presennol a staff newydd. tudalen 70

Argymhelliad 16. Wrth ailddrafftio'r paragraff hwn, rydym yn argymhell y dylid ei gysylltu a'i groesgyfeirio â'r darpariaethau priodol yn y strategaeth sgiliau dwyieithog. Credwn y dylai'r strategaeth hwn amlinellu'r lefelau sgiliau sydd eu hangen ar gyfer meysydd gwasanaeth a swyddi penodol. tudalen 70

Argymhelliad 17. Rydym hefyd yn argymhell y dylid trafod y materion sy'n peri pryder i undeb y PCS gyda Chomisiwn y Cynulliad fel rhan o'r cyfarfod y cyfeirir ato yn Argymhelliad 6. tudalen 70

Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i hystyried ar oblygiadau ariannol y Cynllun wedi amlygu i ni y diffyg eglurder ynghylch beth y mae Comisiwn y Cynulliad yn ceisio ei gyflawni drwy ei strategaeth gwasanaethau dwyieithog. tudalen 76

Yn ein hadroddiad, rydym wedi pwysleisio'r angen am gynllun gweithredu a strategaeth sgiliau dwyieithog sy'n cynnwys targedau ac amcanion penodol. Credwn yn gryf fod yn rhaid cael ymrwymiad i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyrraedd a bod yr amcanion penodol yn cael eu bodloni. tudalen 76

Yn ein barn ni, byddai'n annoeth gweithredu mewn dull penodol heb gael yr arian sy'n angenrheidiol i wneud hynny. Dyna pam ei bod yn

bwysig i Gomisiwn y Cynulliad fod yn hollol glir ynghylch yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni gyda'i strategaeth gwasanaethau dwyieithog.
tudalen 77

Cytunwn â sylwadau Comisiwn y Cynulliad fod darparu hyfforddiant iaith yn ymwneud nid yn unig â darparu cyllid ond hefyd â darparu'r cyfleoedd priodol i ddatblygu sgiliau iaith.
tudalen 77

Fodd bynnag, mae galluogi staff i ddod o hyd i amser i fynd ar gyrsiau iaith ac i ymarfer a datblygu eu sgiliau iaith yn y gwaith hefyd yn bwysig ac ni ddylid anghofio hynny. Rhaid cydnabod bod costau ariannol yn gysylltiedig â materion fel amser staff a chapasiti.
tudalen 77

Argymhelliad 18. O ganlyniad, rydym yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad, fel rhan o'i strategaeth sgiliau dwyieithog a'r targedau sydd ynddi, nodi'n glir sut y sicrheir bod gan staff amser nid yn unig i fynd ar gyrsiau iaith priodol ond hefyd i fanteisio ar gyfleoedd datblygu iaith yn y gwaith, neu i'w darparu.
tudalen 77

Argymhelliad 19. Unwaith eto, nodwn fod y strategaeth sgiliau dwyieithog eisoes wedi'i chwblhau. Os nad yw'n dilyn y dull a awgrymwyd gennym yn Argymhelliad 18, rydym yn argymhell y dylid ei adolygu i sicrhau bod hynny'n digwydd.
tudalen 77

Credwn fod costau sylweddol yn gysylltiedig â'r Bil a'r Cynllun fel y'u drafftiwyd ar hyn o bryd na chawsant eu hegluro'n glir yn ein barn ni.
tudalen 77

Rydym hefyd yn cydnabod y gellir bod costau ychwanegol o ganlyniad i wneud Argymhellion 1 a 2.
tudalen 77

Argymhelliad 20. Felly, rydym yn argymhell yn gryf y dylai Comisiwn y Cynulliad, pa bynnag ddull y mae'n penderfynu ei ddefnyddio ar gyfer y Bil a'r Cynllun, sicrhau bod digon o arian ar gael ac wedi'i ymrwymo i fodloni'r amcanion a'r ymrwymadau sydd ynddynt.
tudalen 77

1. Cyflwyniad

1. Ar 30 Ionawr 2012, cyflwynodd Rhodri Glyn Thomas AC, Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ("y Comisiynydd"), Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol)¹ ("y Bil").
2. Ar 24 Ionawr 2012, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 4 Mai 2012.

Natur y gwaith craffu

3. Gwnaethom gytuno ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer ein gwaith:

Ystyried:

- i) yr angen am Fil i wneud darpariaeth am y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol a chan Gomisiwn y Cynulliad wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau;
- ii) a yw'r Bil yn cyflawni'r diben a nodir;
- iii) y prif ddarpariaethau a nodir yn y Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r diben;
- iv) rhwystrau posibl i weithredu'r prif ddarpariaethau ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- v) a oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- vi) y Cynllun leithoedd Swyddogol drafft a geir yn Atodiad B o'r Memorandwm Esboniadol.

Dull y Pwyllgor o weithio

4. Yn ogystal â chraffu ar y Bil, penderfynwyd craffu ar y Cynllun leithoedd Swyddogol Drafft ("y Cynllun")², sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad B i'r Memorandwm Esboniadol.

¹ Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol), ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=229894&ds=1/2012>

² Drwy gydol yr adroddiad hwn, dylid dehongli cyfeiriadau at y "Cynllun" fel cyfeiriadau at y Cynllun drafft a geir yn Atodiad B i'r Memorandwm Esboniadol neu'r Cynllun a gymeradwywyd, fel sy'n addas.

5. Cynhaliwyd ymgynghoriad gennym a rhoddwyd gwahoddiad i randdeiliaid allweddol gyflwyno dystiolaeth i lywio ein gwaith. Mae rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi'i chynnwys ar dudalen 74.
6. Clywsom dystiolaeth lafar gan y tystion a restrir ar dudalennau 72 a 73.
7. Tuag at ddiwedd ein gwaith, cyfeiriodd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb i ni gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ynghylch Cofnod dwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn.³
8. Mae'r adroddiad a ganlyn yn cynrychioli'r casgliadau yr ydym wedi'u cyrraedd a'n hargymhellion yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith.
9. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

³ Deiseb: P-04-330 Cofnod Cymraeg yn ein Cynulliad ni; i'w gael yn: <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mqIssueHistoryHome.aspx?IId=1739&Opt=0>

2. Cefndir

Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil

10. Mae darpariaethau'r Bil yn berthnasol i bwnc 13 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) a phwnc 20 (y Gymraeg) fel y'u ceir yn Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006").

11. Mae darpariaethau'r Bil yn berthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn unig, ac felly yn berthnasol i Gymru yn unig.

*Y Memorandwm Esboniadol*⁴

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi mai

“diben y Bil yw rhoi dyletswyddau'r Cynulliad, a rhai'r Comisiwn, mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau dwyieithog, ar sail statudol gadarn.”⁵

13. Penderfynodd Comisiwn y Cynulliad gyflwyno Bil yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011. Penderfynodd hefyd i fwrw ymlaen ar sail cynllun iaith a ddarperir o dan y Bil.⁶

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro'r rhesymeg dros y penderfyniad i fwrw ymlaen drwy gael cynllun iaith:

“Bellach, mae'r gyfraith mewn perthynas â'r Gymraeg wedi symud ymlaen. Bydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ... yn diddymu Deddf 1993 a chyfundrefn y cynlluniau iaith, ac yn eu lle yn cyflwyno 'safonau' a gaiff eu gosod gan Weinidogion ac y gellir eu gorfodi yn y llysoedd gan Gomisiynydd y Gymraeg ...

Nid yw naill ai'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun na Chomisiwn y Cynulliad yn destun y trefniadau newydd hyn sy'n cael eu goruchwylio gan Weinidogion. Yn hytrach, maent yn parhau'n destun y dyletswyddau o dan Ddeddf 2006. Mae hyn yn

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol): Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol*, Ionawr 2012; ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=229895&ds=1/2012>

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.1

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.3

adlewyrchu sefyllfa gyfansoddiadol lle nad oes gan Weinidogion Cymru awdurdodaeth dros y Cynulliad Cenedlaethol.”⁷

15. Ymgynghorodd Comisiwn y Cynulliad ar Fil Ieithoedd Swyddogol drafft a Chynllun Gwasanaethau Dwyieithog drafft (fel y'i gelwid bryd hynny) rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2011. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, y prif bwyntiau a oedd yn codi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd:

- cefnogaeth gyffredinol dros osod dyletswydd i ddarparu Cofnod cwbl ddwyieithog⁸ o drafodion y Cyfarfod Llawn ar wyneb y Bil gan bron iawn bawb a ymatebodd;
- yr angen am drefniadau cofnodi a chraffu cadarn mewn cysylltiad â pherfformiad o ran y Cynllun;
- galwadau i'r Cynulliad arwain drwy esiampl o ran cefnogi'r Gymraeg a pholisi a darpariaeth o ran y Gymraeg;
- materion ynghylch hawl pobl i gyfrannu yn eu dewis iaith; ac
- yr iaith a ddefnyddir yn y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd rhai o'r ymatebion yn teimlo y dylai'r Cynulliad ganolbwyntio mwy ar ei nod o sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar rai sgiliau iaith Gymraeg. Roedd eraill yn credu y dylai holl staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn ddwyieithog.⁹

16. Ceir disgrifiad o'r wybodaeth fanylach am yr ymatebion i'r ymgynghoriad a sut yr ystyriodd Comisiwn y Cynulliad hwy wrth ddiwygio'r Bil a'r Cynllun yn adran 6 o'r Memorandwm Esboniadol.

17. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn darparu bod yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad fabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Ieithoedd Swyddogol sy'n rhoi effaith i rwymedigaethau o dan y Bil, sef:

- mai'r Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad;
- bod yn rhaid eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal trafodion y Cynulliad;

⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 2.7 a 2.8; Mae'r cyfeiriad at Ddeddf 1993 yn gyfeiriad at *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993*.

⁸ Mae'r cyfeiriadau at "Cofnod y Trafodion" yng nghorff yr adroddiad hwn yn cyfeirio at drafodion y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriadau at "Cofnod y Trafodion" yn y troednodiadau yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 6.13

- bod gan bob person yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad.

18. Mae'r Cynllun, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad B i'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu darparu gwasanaethau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'n cynnwys:

- uchelgais y Cynulliad i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad a'r staff i weithio yn y ddwy iaith;
- trefniadau dwyieithog wrth baratoi ar gyfer trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau, ac wrth eu cynnal a'u cofnodi;
- gohebiaeth ddwyieithog gyda'r cyhoedd i annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd;
- sut y bydd y Cynulliad yn rheoli ac annog sgiliau dwyieithog staff y Cynulliad (drwy strategaeth sgiliau dwyieithog).¹⁰

19. Mae'r ffordd y mae gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad yn cael eu darparu ar hyn o bryd wedi'i nodi yn ei Gynllun Iaith Gymraeg 2007, a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Gorffennaf 2007.

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, Atodiad B, paragraff 11.

3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Cefndir

20. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad fabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Ieithoedd Swyddogol sy'n rhoi effaith i rwymedigaethau o dan y Bil, sef:

- mai'r Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad;
- bod yn rhaid eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal trafodion y Cynulliad;
- bod gan bob person yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad.

Tystiolaeth gan dystion

Yr angen am y Bil a sylwadau cyffredinol

21. O blith yr 11 ymateb ysgrifenedig a gafwyd, roedd 10 ohonynt yn glir o ran eu cefnogaeth i'r angen am Fil i ganiatáu ar gyfer fframwaith cyfreithiol diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad.

22. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

“...rydym yn bendant yn croesawu'r Bil newydd hwn. Mae'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y Bil yn cwrdd â nod y Comisiwn o roi dyletswyddau'r Cynulliad mewn cysylltiad â'r Gymraeg ar sail statudol gadarn.”¹¹

23. Roedd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru hefyd yn croesawu'r Bil ac yn teimlo y byddai'n cyflawni ei nod.¹²

24. Wrth gefnogi'r Bil, dywedodd Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg Deddwyrain Cymru ei fod yn credu bod y Bil yn welliant ar yr hyn a oedd yn bodoli o'r blaen.¹³

25. Dywedodd yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), yr undeb sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o staff y Cynulliad wrthym:

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 1 Mawrth 2012

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 138, 7 Mawrth 2012

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 110, 15 Mawrth 2012

“Hoffem bwysleisio ein bod yn gefnogol iawn i brif bwrpas y Bil a’n bod yn credu ei fod yn ddull cymesur a rhesymol o egluro a chryfhau’r gyfraith o ran y defnydd a wneir o’r Gymraeg yn y Cynulliad Cenedlaethol.”¹⁴

26. Roedd yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn teimlo bod y Bil yn gam ymlaen, ond nododd rai meysydd i’w gwella.¹⁵

27. Roedd gan Gymdeithas yr Iaith farn gymysg am y Bil. Nid oedd yn teimlo y byddai’r Bil yn cyflawni’r diben a fwriadwyd. Ychwanegodd:

“nid yw’r Bil yn gwireddu’r hawl foesol sydd gan bobl Cymru i ymwneud â’u deddfwrfa yn Gymraeg.”¹⁶

28. Fodd bynnag, dywedodd:

“Credwn ei bod yn galonogol iawn bod y Cynulliad yn rhoi statws swyddogol i’r iaith o fewn y sefydliad. Mae’r gymdeithas hefyd yn croesawu adran 1(1B) y Bil, sy’n rhoi’r hawl i ddefnyddio’r iaith Gymraeg o fewn gweithrediad y Cynulliad. Mae hynny’n galonogol iawn.”¹⁷

29. Roedd aelod o’r cyhoedd yn pryderu:

“na fydd y Bil mewn gwirionedd yn gwneud digon i newid unrhyw beth ac na fydd ein Cynulliad ni yn wirioneddol ddwyieithog ond yn sefydliad sydd yn ymddangosiadol ac yn arwynebol ddwyieithog ond sydd yn ei grynswth yn sefydliad Saesneg.”¹⁸

Cydbwysedd rhwng wyneb y Bil a’r Cynllun

30. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg¹⁹ a Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru²⁰ yn cytuno’n fras bod cydbwysedd

¹⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 15 Mawrth 2012

¹⁶ Tystiolaeth Lafar, OLB 3

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 7 Mawrth 2012

¹⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 6

¹⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 1: daeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben ar 31 Mawrth 2012. Dechreuodd Comisiynydd y Gymraeg ar ei gwaith ar 1 Ebrill 2012.

²⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig OLB 5

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 119, 15 Mawrth 2012

cywir rhwng y gofynion penodol ar wyneb y Bil a'r darpariaethau i'w cynnwys yn y Cynllun, ar wahân i'r diffyg cyfeiriad at Gofnod y Trafodion ar wyneb y Bil.

31. Nid oedd Cymdeithas yr Iaith yn cytuno y cafwyd y cydbwysedd cywir gan fod "angen gosod rhai dyletswyddau penodol ar wyneb y Bil".²²

Defnyddio Cynllun ieithoedd swyddogol

32. Roedd Bwrdd yr Iaith²³ yn ystyried bod cyflawni dyletswyddau Comisiwn y Cynulliad drwy gyfrwng Cynllun yn briodol, fel yr oedd y PCS, a ddywedodd ei fod yn "ddull synhwyrol ac ymarferol o weithredu".²⁴

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

33. Pan holwyd y Comisiynydd ynglŷn â pham fod angen diweddarau'r dyletswyddau presennol sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y Cynulliad, dywedodd:

"Nid yw'r broses honno wedi cael ei diweddarau ac ni chafodd ei diweddarau yn Neddf 2006. Felly, rydym yn cyflawni'r broses honno drwy'r Bil. Wrth gwrs, mae'r Mesur iaith wedi newid y sefyllfa yn sylweddol."²⁵

34. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn credu y cafwyd y cydbwysedd cywir rhwng yr hyn a geir ar wyneb y Bil a'r darpariaethau a nodir yn y Cynllun, dywedodd y Comisiynydd:

"Ydw, oherwydd mae'r Bil yn ymwneud â'r egwyddorion cyffredinol, ac mae'r manylion ymarferol yn y cynllun".²⁶

35. Dywedodd hefyd mai "penderfyniad y Comisiwn oedd cadw'r Bil mor syml â phosibl".²⁷

²² Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

²³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 1

²⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 198, 9 Chwefror 2012; mae *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh>

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 196, 9 Chwefror 2012

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 237, 9 Chwefror 2012

36. Ychwanegodd:

“Mae'r cwestiwn ynglŷn â beth sydd ar wyneb y Bil yn un diddorol. Hynny yw, gellir cynnwys pob math o bethau ar wyneb y Bil petaech yn dymuno gwneud hynny. Byddwn yn dadlau mai'r hyn a ddylai fod ar wyneb y Bil yw'r hyn sy'n disgrifio'r Bil yn gyffredinol. Os dechreuwch fanylu ar wyneb y Bil, ble fydddech yn tynnu'r llinell?”²⁸

37. Esboniodd y Comisiynydd pam fod y Comisiwn wedi dewis defnyddio cynllun iaith i gyflawni'r dyletswyddau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn hytrach na chyfundrefn o safonau (fel y'i defnyddir ar gyfer sefydliadau eraill ym *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*). Dywedodd wrthym fod “cyfundrefn o safonau yn golygu bod yn rhaid bod yn atebol i awdurdod arall”.²⁹ Ychwanegodd fod y gyfundrefn safonau a gyflwynwyd gan Fesur 2011 yn golygu bod:

“Llywodraeth Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, felly ni fyddai safonau'n briodol. Dyna pam yr ydym yn gweithredu ar sail cynllun iaith.”³⁰

Ein barn ni

Rydym yn nodi bod y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi symud ymlaen o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac nad yw'r Mesur hwn yn berthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol nac i Gomisiwn y Cynulliad.

Rydym hefyd yn nodi bod y rhan fwyaf o dystion o blaid yr angen am y Bil.

Felly, rydym yn cytuno bod angen Bil i ddiweddarau'r fframwaith deddfwriaethol ar ddarparu gwasanaethau dwyieithog fel y mae'n berthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i Gomisiwn y Cynulliad.

Rydym yn nodi na chawsom wrthwynebiad i'r defnydd o gynllun iaith i gyflawni dyletswyddau Comisiwn y Cynulliad fel y nodir yn y Bil. Felly, rydym yn fodlon â'r dull hwn.

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 21 Mawrth 2012

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 189, 9 Chwefror 2012

³⁰ ibid

Gan hynny, ac yn sgîl y dystiolaeth a gafwyd, rydym yn fodlon ag egwyddorion cyffredinol y Bil.

Fodd bynnag, ni chawsom ein hargyhoeddi y cafwyd y cydbwysedd cywir rhwng y gofynion penodol sydd wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil a'r darpariaethau sydd i'w cynnwys yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Mae ein barn benodol yn hynny o beth, ac ar agweddau eraill ar y Bil, wedi'u nodi ym mhenodau 4 a 5 o'r adroddiad hwn.

4. Adran 1- Diwygio adran 35 o'r Ddeddf (Trin yn gyfartal)

Cefndir

38. Mae adran 1(2) o'r Bil yn disodli adran 35(1) o Ddeddf 2006, gyda phedwar is-adran newydd.

39. Mae is-adran newydd (1) yn cynnwys datganiad sy'n nodi mai'r Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae'r agwedd hon yn adlewyrchiad o ddeddfwriaeth a gaiff ei defnyddio i lywodraethu deddfwrfeydd dwyieithog eraill (ee the New Brunswick Official Languages Act 2002, adran 6: 'English and French are the official languages of the Legislature').”³¹

40. Mae is-adran newydd (1A) yn nodi bod yn rhaid trin yr ieithoedd swyddogol ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y ddarpariaeth hon yn newid y ffordd y caiff y ddyletswydd ei mynegi ar hyn o bryd yn Neddf 2006 ac yn “adlewyrchu newid cymesur a wnaed gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011”.³²

41. Mae is-adran newydd (1B) yn nodi bod gan bob person yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall pan fyddant yn cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae hyn yn

“adlewyrchu arfer deddfwrfeydd dwyieithog eraill o roi'r hawl i ddefnyddio'r ddwy iaith yn glir ar wyneb y ddeddfwriaeth lywodraethu (gweler Deddf Ieithoedd Swyddogol New Brunswick 2002, adran 6)”.³³

42. Mae is-adran newydd (1C) yn cyfeirio at Atodlen 2, paragraff 8 o Ddeddf 2006, sy'n cynnwys darpariaethau newydd a fewnosodir gan y Bil, sy'n nodi sut y mae'n rhaid i Gomisiwn y Cynulliad alluogi rhoi effaith i is-adrannau (1), (1A) a (1B).

³¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.2

³² Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.3

³³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.4

Tystiolaeth gan dystion

43. Yn gyffredinol, cefnogwyd adran 1 o'r Bil gan nifer o sefydliadau.

44. Dywedodd Bwrdd yr Iaith:

“Croesawn y darpariaethau yn adran 1(2) sy'n cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yn y Cynulliad a'r ymrwymiad diamwys sy'n rhoi hawl i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r Cynulliad.”³⁴

45. Gwnaeth Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru sylwadau cadarnhaol ar adran 1, gan ddweud:

“Mae'r 4 ddarpariaeth newydd yn gryn welliant ar yr hyn a fu ynghynt ac yn creu gwir gydraddoldeb ieithyddol o'i gymharu â'r geiriad blaenorol a oedd yn ein barn ni yn tanseilio'r Gymraeg.”³⁵

46. Croesawodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru y ffaith bod:

“Adran 1(2) o'r Bil yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yn y Cynulliad Cenedlaethol ac y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal.”³⁶

47. Cafodd Cymdeithas yr Iaith ei chalonogi gan is-adran newydd 1(1B) o'r Bil gan ei bod yn “rhoi'r hawl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg o fewn gweithrediad y Cynulliad”.³⁷

48. Fodd bynnag, roedd ganddi hefyd amheuan ac awgrymodd mai un o ganlyniadau defnyddio'r term “Trafodion y Cynulliad”³⁸ yn is-adrannau newydd (1A) a (1B) yw bod

“y Bil, wrth roi statws cydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg yn 'nhrafodion' y Cynulliad, yn cyfyngu hynny i weithgarwch cyfarfodydd y Cynulliad, a dim mwy”.³⁹

³⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 1

³⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 5

³⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 2

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 7 Mawrth 2012

³⁸ Mae Adran 1(5) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn diffinio'r term “Trafodion y Cynulliad” fel “...any proceedings of – (a) The Assembly, (b) Committees of the Assembly, or (c) Sub-committees of such committees.”

49. Yn ei barn hi, mae “mwy i’r Cynulliad na dim ond y trafodion”, fel digwyddiadau addysgol, sydd hefyd yn ffurfio gweithgareddau’r Cynulliad.⁴⁰

50. O ganlyniad, dywedodd:

“Byddem felly yn dadlau dros addasu geiriad adrannau 1(2)(1A) ac 1(2)(1B) fel nad ydynt yn cyfyngu eu heffaith i ‘trafodion’ y Cynulliad yn unig. Mater i swyddogion cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad yw ystyried sut i wneud hynny, ond un opsiwn y byddai geiriad fel ‘the right to use either official language when dealing with the Assembly and in Assembly proceedings’. Byddem hefyd yn ffafrio ‘treated equally’, sy’n gryfach na’r geiriad presennol ‘on a basis of equality’.”⁴¹

51. Gwnaeth yr Uned Ymchwil Iaith hefyd sylwadau ar oblygiadau’r ffordd y cafodd y darpariaethau yn adran 1 eu drafftio. Dywedodd:

“Mae ieithwedd y Bil yn sôn am hawliau, ‘All persons have the right to use either official language when participating in Assembly Proceedings’, ieithwedd sy’n seiliedig ar ddeddfwriaeth New Brunswick, yn ôl y Memorandwm Esboniadol (11.4). Ond nid yw’r hawliau hyn yn cael eu hymestyn i’r dinesydd sy’n arfer ei hawl ddemocrataidd i ddarllen neu wrando ar y trafodion hyn. Nid yw’r broblem hon yn bodoli yn neddfwriaeth New Brunswick, gan fod hawliau’r sawl sy’n cyfrannu hefyd yn cael eu hymestyn i’r dinesydd sy’n darllen neu’n gwrando. Fodd bynnag, mae’r broblem yn bodoli yn y Bil ar hyn o bryd.”⁴²

52. O ganlyniad, dywedodd:

“Pan fydd rhywun yn trafod trafodion llawn y Cynulliad yn benodol, oherwydd mai dim ond Aelodau etholedig sydd yn cyfrannu atynt, roedd yn fy nharo i fod yr hawl i ddefnyddio’r Gymraeg yn gwbl gyfyngedig i Aelodau’r Cynulliad. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw hawl gan y dinesydd i gael gwybod am yr

³⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3A, Tystiolaeth Atodol

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 7 Mawrth 2012

⁴¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig OLB 3A, Tystiolaeth Atodol

⁴² Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4

hyn sydd wedi digwydd yn nhrefodion llawn y Cynulliad yn ei ddewis iaith.”⁴³

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

53. Dywedodd y Comisiynydd fod y darpariaethau yn is-adrannau newydd (1A) ac (1B) dim ond yn berthnasol i ‘Drafodion y Cynulliad’ oherwydd:

“dyma yw priod waith y Cynulliad. Mae popeth arall yn gefnogol i hyn ac felly yn rhan o ddyletswyddau’r Comisiwn, ac felly yn adran 2 byddai hynny”.⁴⁴

54. Pan holwyd y Comisiynydd ynghylch a yw’n briodol ehangu’r hawliau i gynnwys dinasyddion sy’n dymuno ymgysylltu â’r Cynulliad (drwy ddarllen y trafodion neu drwy wrando arnynt), atebodd:

“Yn gyntaf, nid oes term cyfreithiol, hyd y gwn i, am ddinasyddiaeth Gymreig, ond mae’r Bil yn sôn am yr hawliau hyn yng nghyd-destun pawb, ac felly mae’n cynnwys nid yn unig Aelodau’r Cynulliad, ond swyddogion, tystion, ac unrhyw un arall sy’n cymryd rhan yn y trafodion hynny. Felly, mae’n berthnasol i unrhyw un sy’n cymryd rhan yn y gweithgareddau.”⁴⁵

55. Pan ofynnwyd iddo pam fod Comisiwn y Cynulliad wedi diwygio is-adran newydd (1B) o’r hyn a oedd yn y Bil drafft⁴⁶—fel bod gan unrhyw berson yn awr “hawl” i ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg wrth gymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad—esboniodd bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i’r broses ymgynghori ar y Bil drafft. Ychwanegodd:

“Nid yw’n newid y nod o gwbl, ond roedd teimlad bod y geiriad newydd yn rhoi eglurder.”⁴⁷

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 15 Mawrth 2012

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 21 Mawrth 2012

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 21 Mawrth 2012

⁴⁶ Mae’r Bil drafft yn nodi: “Either official language may be used by any person when participating in Assembly proceedings”.

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 212, 9 Chwefror 2012

Ein barn ni

Fel nifer o'r tystion, rydym yn croesawu is-adran newydd (1) i adran 35 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a'i gyfeiriad at y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol y Cynulliad.

Rydym hefyd yn croesawu'r cyfeiriad yn is-adran newydd (1B) at "hawl" i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad ac rydym yn cytuno bod hyn yn welliant ar y geiriad a oedd wedi'i gynnwys yn y Bil drafft a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer ymgynghori arno yn 2011.

Rydym yn nodi bod *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, y mae'r Bil hwn yn ceisio ei ddiwygio, yn diffinio Trafodion y Cynulliad fel unrhyw drafodion o'r Cynulliad, pwyllgor y Cynulliad neu is-bwyllgorau pwyllgorau o'r fath.

Nodwn hefyd, drwy gyfeirio at 'gynnal' trafodion y Cynulliad yn is-adrannau (1A) a 'chymryd rhan yn' nhrefodion y Cynulliad yn is-adran newydd (1B), bod hyn o bosibl yn cyfyngu ar y graddau y gall dinasyddion ymgysylltu â'r Cynulliad yn eu dewis iaith.

Gan hynny, rydym yn cydymdeimlo â'r rhai sydd wedi awgrymu y dylid diwygio is-adrannau newydd (1A) a (1B) er mwyn ehangu eu cwmpas fel y gall dinasyddion ymgysylltu'n llawn, yn eu dewis iaith,

- â thrafodion y Cynulliad ar ôl iddynt ddigwydd (er enghraifft, drwy ddarllen trawsgrifiadau o'r Cyfarfod Llawn neu gyfarfodydd pwyllgor);
- â gweithgareddau'r Cynulliad heblaw trafodion y Cynulliad.

Argymhelliad 1

Rydym felly yn argymhell y dylai'r Comisiynydd ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai cyflwyno gwelliannau i wneud newidiadau o'r fath.

5. Adran 2 – Diwygio Atodlen 2 i'r Ddeddf (Comisiwn y Cynulliad)

Cefndir

56. Wrth drafod yr egwyddorion cyffredinol, rydym eisoes wedi dweud ein bod yn cytuno â'r defnydd o gynllun iaith er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn adran 1 (2) o'r Bil. Mae ein trafodaeth yn yr adran hon o'r adroddiad, felly, yn canolbwyntio ar is-baragraffau newydd (5) - (10) a gynigiwyd ar gyfer paragraff 8 o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Yn yr adran hon, felly, dylid darllen y cyfeiriad at "is-baragraff newydd" yn y bennod hon fel cyfeiriad at is-baragraff newydd ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006.

57. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"Mae is-baragraffau (5) a (6) yn ymdrin â rhai (ond nid yr holl) faterion y bydd angen i'r Cynllun ymdrin â hwy, sef cyfieithu ar y pryd mewn trafodion y Cynulliad Cenedlaethol a chyhoeddi dogfennau yn ddwyieithog.

Mae is-baragraff (6) yn ei gwneud yn glir nad yw'r Ddeddf o angenrheidrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun ddarparu ar gyfer cyfieithu ar y pryd a chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar bob achlysur. Felly, gallai'r Cynllun gyfyngu ar gyfieithu llafar ar y pryd mewn trafodion i gyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg yn unig (sydd wedi bod yn arferol ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol). Gallai hefyd gyfyngu'r ddyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog ysgrifenedig i gyfarfodydd llawn (ond nid i bwyllgorau), eto yn gyson â'r arfer presenol. Mae hyn yn adlewyrchu hynny sydd yn Neddf Ieithoedd Swyddogol Iwerddon 2002."⁴⁸

58. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro pam y penderfynwyd peidio â chynnwys cyfeiriad at Gofnod y Trafodion ar wyneb y Bil:

⁴⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 12.7 a 12.8

“Ystyriodd y Comisiwn y byddai’n rhaid i’r Cynllun ei hun gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, ac felly, wedi iddo gael ei gymeradwyo, byddai’r Comisiwn o dan ddyletswydd i’w weithredu. Penderfynodd y Comisiwn felly na fyddai cynnwys, yn ychwanegol, ddyletswydd gyfreithiol anhyblyg ar wyneb y Bil ei hun yn angenrheidiol nac yn ddymunol.”⁴⁹

59. Mae is-baragraff newydd (8) yn cyflwyno dyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i lunio adroddiad blynyddol ar weithredu’r Cynllun, a fydd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

60. Mae is-baragraff newydd (9) yn ei gwneud yn ofynnol bod Comisiwn y Cynulliad yn adolygu ac, os oes angen, yn diwygio’r cynllun o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae’r Memorandwm Esboniadol sy’n cyd-fynd â’r Bil yn egulro’r hyn a ganlyn:

“bydd tymor y Cynulliad Cenedlaethol presennol, o ganlyniad i gyflwyno tymhorau o bum mlynedd sefydlog i Dŷ’r Cyffredin, yn para pum mlynedd ac nid yw’n glir ar hyn o bryd pa mor hir fydd tymhorau’r Cynulliad yn y dyfodol. Mae’r drafft diwygiedig felly yn rhoi’r hyblygrwydd i osgoi’r angen am ddeddfwriaeth ddiwygio ar y pwynt cul hwn, drwy ei gwneud yn ofynnol i’r Cynllun gael ei adolygu ‘o leiaf unwaith bob pum mlynedd’.”⁵⁰

61. Mae is-baragraff newydd (10) (ar y cyd ag is-baragraffau newydd (4) a (9)) yn ymdrin â’r broses ar gyfer paratoi, mabwysiadu ac adolygu’r Cynllun. Mae is-is-baragraff newydd 10(b) yn darparu bod yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad ystyried unrhyw sylwadau a wneir ynghylch Cynllun drafft neu ddiwygiad iddo gan aelodau o’r cyhoedd ac Aelodau’r Cynulliad.

Is-baragraffau newydd (5) a (6), a Chofnod cwbl ddwyieithog o drafodion

Tystiolaeth gan dystion

62. Roedd llawer o’r dystiolaeth a gawsom yn canolbwyntio ar a ddylid cynnwys cyfeiriad at Gofnod cwbl ddwyieithog o drafodion ar wyneb y Bil. Mae’r mater hwn yn arbennig o berthnasol i is-baragraffau

⁴⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 6.20

⁵⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 12.11

newydd (5) a (6) a gynigir gan y Bil ac felly caiff ei drafod yma, ynghyd â sylwadau eraill sy'n berthnasol i'r darpariaethau hyn.

63. Nododd Bwrdd yr Iaith:

“nad oes cyfeiriad penodol at Gofnod y Trafodion yn y Bil. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y rhesymau yn erbyn gwneud hynny a gynhwysir yn y Memorandwm Esboniadol. Credwn gallai cyfeiriad at y Cofnod yn y Bil roi sicrwydd i'r cyhoedd na fyddai'r math o benderfyniad a wnaethpwyd gan y Comisiwn yn ystod y trydydd Cynulliad i ddiweddu'r cyfieithiad llawn yn digwydd eto.”⁵¹

64. Pan holwyd y Bwrdd, dywedodd ei fod o'r farn y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth ychwanegol am Gofnod y Trafodion, gan nodi y bydd ar gael yn y ddwy iaith.⁵² Ychwanegodd:

“[Mae] cael Cofnod dwyieithog yn rhywbeth symbolaidd bwysig ac mae dadl gref dros wahaniaethu ar y pwynt hwnnw a rhoi cymal yn y Bil.”⁵³

65. Roedd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru hefyd yn cefnogi'r dull gweithredu hwn. Roedd o'r farn y dylai “darparu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog fod wrth wraidd uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog” ac ychwanegodd:

“Rhaid osgoi'r sefyllfa a ddigwyddodd yn 2009, pan benderfynwyd peidio â chyhoeddi Cofnod dwyieithog. Ni fyddai cydnabod statws y Cofnod yn y Bil yn tanseilio gwasanaethau dwyieithog eraill. Byddai'n rhoi statws dyledus i'r Cofnod fel dogfen bwysicaf y Cynulliad.”⁵⁴

66. Gwnaeth yr Uned Ymchwil Iaith ei safbwynt yn glir:

“Dylai fod cofnod o'r trafodion ar gael yn y ddwy iaith. Mae hynny'n hollbwysig ar gyfer trafodion llawn y Cynulliad oherwydd y rôl unigryw mae'r Cyfarfod Llawn yn chwarae ym mywyd cenedlaethol a *civic* Cymru. Mae'r trafodaethau'n

⁵¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 1

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 1 Mawrth 2012

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 1 Mawrth 2012

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 151, 7 Mawrth 2102

eithriadol o bwysig ym mywyd y genedl a'r ddemocratiaeth sy'n cael ei chreu yng Nghymru. Mae'n briodol bod yr ymrwymiad hwnnw ar wyneb y Bil fel nad oes ansicrwydd am y mater o safbwynt dinasyddion ac etholwyr."⁵⁵

67. Wrth roi sylwadau am yr eglurhad a roddir ym mharagraff 6.20 o'r Memorandwm Esboniadol (gweler paragraff 58) dros beidio â chynnwys cyfeiriad at Gofnod y Trafodion ar wyneb y Bil, dywedodd "Nid oes gan y Cynllun yr un statws cyfreithiol â'r Bil, mae'n amlwg".⁵⁶ Dywedodd hefyd:

"Mae'n glir bod y deddfwrfeydd yn yr awdurdodaethau sydd mwyaf tebyg i Gymru o safbwynt sosio-ieithyddol (hynny yw niferoedd o siaradwyr y gwahanol ieithoedd swyddogol, maint poblogaeth, datblygiad ieithyddol ac ati) wedi mabwysiadu dulliau o osod ar wyneb deddfwriaeth berthnasol datganiadau a dyletswyddau ynghylch statws iaith, hawliau ieithyddol, a defnydd o iaith o fewn ac ar draws gweithdrefnau deddfwriaethol a llywodraethiant. Mae un rheswm syml am hyn—mae'n rhoi sicrwydd ac eglurder i'r cyhoedd."⁵⁷

68. Soniodd yr Uned Ymchwil Iaith hefyd am y modd y mae'r Memorandwm Esboniadol yn cymharu darpariaethau a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil ag arfer mewn manau eraill, yn enwedig yn neddfwrfeydd New Brunswick a Gweriniaeth Iwerddon.

69. Yn benodol, roedd yn teimlo bod:

"[y] Bil a'r Cynllun yn arddel dehongliadau gwan o'r modelau rhyngwladol a ddefnyddid o deddfwriaeth gymharol, sef New Brunswick (Canada) a Gweriniaeth Iwerddon yn bennaf".⁵⁸

70. Mewn perthynas â deddfwriaeth New Brunswick, roedd yn teimlo bod y cymariaethau yn "anghyflawn".⁵⁹ Er nad oedd yn ymgais i gamarwain, dywedodd fod "effaith ymarferol y gymhariaeth yn gamarweiniol".⁶⁰

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 15 Mawrth 2012

⁵⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4

⁵⁷ Ibid

⁵⁸ Ibid

⁵⁹ Ibid

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 15 Mawrth 2012

71. Er enghraifft, nododd nad oes unrhyw beth yn y Bil sy'n golygu y gall y "dinesydd, ar hyn o bryd ... gael sicrwydd y bydd modd iddo gael hyd i drafodion llawn y Cynulliad drwy gyfrwng y Gymraeg".⁶¹ Esboniodd nad oedd y sefyllfa hon yn bod yn New Brunswick (mewn perthynas â'r iaith Ffrangeg) oherwydd y ffordd y cafodd y ddeddfwriaeth ei drafftio yno.⁶²

72. Yn ogystal, dywedodd yr Uned na ddylid dilyn arferion Iwerddon "oherwydd maent yn perthyn i ddefnydd mwy symbolaidd o'r iaith Wyddeleg yng nghyd-destun y Senedd yn Iwerddon."⁶³

73. Yn dilyn hynny, awgrymodd yr Uned eiriad ar gyfer is-baragraff newydd (5) (yn lle is-baragraff newydd (6)) a fyddai'n adlewyrchu arferion rhyngwladol yn well:

"The Scheme must include (amongst other things) provision relating to –

- (a) A wholly bilingual record of proceedings of full meetings, and
- (b) Simultaneous interpretation from Welsh into English, and
- (c) Publication of documents in both official languages, on the basis that both languages are equally authoritative."⁶⁴

74. Wrth iddynt gael eu holi, mynegodd y tystion awydd i weld rhai agweddau eraill yn cael eu cynnwys ar wyneb y Bil:

"Byddai'n dda o beth pe bai wedi nodi ar wyneb y Bil y dylai'r cynllun ei hun gynnwys, er enghraifft, cynllun gweithredu a strategaeth sgiliau iaith ... Ar hyn o bryd, mae'r ymrwymiad braidd yn foel, a byddai manteision i gyflwyno cynllun gweithredu fel rhan o'r cynllun. Byddai modd gweld, trwy edrych ar yr ymrwymadau yn y cynllun, sut yn union mae'r

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 15 Mawrth 2012

⁶² *ibid*

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 15 Mawrth 2012

⁶⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4, Tystiolaeth Atodol

corff am weithredu'r cynllun ac i ba raddau mae'r cynllun yn ymarferol.”⁶⁵

75. Awgrymwyd hefyd ganddynt sut y gellid ymgorffori newidiadau o'r fath mewn is-baragraff (5) newydd diwygiedig:

“Hoffem awgrymu'r geiriad canlynol ar gyfer wyneb y Bil:

The Scheme must include a corporate action plan noting specific targets, timescales and responsibilities, and cross-referenced to the main body of the Scheme.

The Scheme must include a set of key performance indicators.

The Scheme must include (amongst other things) provision for the operation of the Scheme in the form of a language skills strategy.

Rydym yn credu y dylai'r rhain fod yn rhan integredig o'r Cynllun Ieithoedd Swydddogol ac felly gyda'r un statws ag unrhyw un ran arall o'r Cynllun Ieithoedd Swydddogol o safbwynt ymrwymiad statudol.”⁶⁶

76. Roedd sefydliadau eraill yn cytuno â'r angen i ymgorffori cynllun gweithredu a strategaeth sgiliau dwyieithog yn y Cynllun, ond ni wnaethant gyfeirio at a ddylid eu hychwanegu yn ofynion penodol ar wyneb y Bil (gweler paragraffau 146 i 156).

77. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd yn teimlo y dylid cyfeirio at Gofnod dwyieithog o drafodion ar wyneb y Bil. Wrth wneud hyn, tanlinellodd pam, yn ei barn hi, mae Cofnod y Trafodion yn bwysig:

“Y Cynulliad yw calon ein democratiaeth yma yng Nghymru. Mae'r Cofnod yn gofnod o benderfyniadau gwlad, sef penderfyniadau pwysig iawn.”⁶⁷

78. Dadleuodd nad oedd cyfeirio'n benodol at Gofnod dwyieithog o'r trafodion ar wyneb y Bil yn wahanol i'r hyn a oedd wedi'i gynnwys yn

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 15 Mawrth 2012

⁶⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4, Tystiolaeth Atodol

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 7 Mawrth 2012

is-baragraff newydd (5) eisoes gan fod y ddarpariaeth hon “eisoes yn rhoi rhai pethau uwchben pethau eraill” gan ei fod yn darparu “rhestr ... o bethau y mae’n rhaid i’r cynllun ymwneud â hwy”.⁶⁸

79. Y dull gweithredu a ffafriwyd ganddi oedd diwygio is-baragraff newydd (5):

“i restru’r elfennau y byddai’n orfodol i’r Cynulliad eu darparu, yn lle y geiriad presennol. Fel y nodwyd uchod, byddai angen i hynny gynnwys, fan lleiaf, sicrhau bod dogfennau ar gyfer y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog, paratoi cofnodion cwbl ddwyieithog o gyfarfodydd llawny Cynulliad, darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg ymhob un o gyfarfodydd y Cynulliad (gan gynnwys cyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd), gweithio i sicrhau cynnydd parhaus yn y defnydd o’r Gymraeg yn fewnol yn y Comisiwn, a sicrhau y bydd modd i bawb (yn gyhoedd, staff a phawb arall) ymdrin â’r Cynulliad yn ei ddewis iaith.”⁶⁹

80. Wrth gefnogi ei hachos, dadleuodd y byddai “hyd yn oed llai o rym allanol i sicrhau bod y Cynulliad yn cadw at ei gynllun”, gan nad yw rôl y Comisiynydd iaith yn cynnwys Comisiwn y Cynulliad. O ganlyniad, dywedodd:

“Dyna pam y mae’r gyfundrefn newydd yn cryfhau’r achos dros restru rhai gwasanaethau Cymraeg sylfaenol ar wyneb y Bil. Heb hynny, fe fydd y ddeddfwriaeth hon yn golygu bod y Gymraeg ar dir llai cadarn nag o’r blaen.”⁷⁰

81. Ychwanegodd:

“Yn yr un modd, rydym o’r farn y dylai cofnodion cyfarfodydd pwyllgor fod yn cael eu paratoi’n gwbl ddwyieithog, fel bod modd i bawb eu darllen yn gyfan gwbl yn eu dewis iaith ... Gallai defnyddio technoleg fod yn gymorth wrth baratoi cyfieithiadau....”⁷¹

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 7 Mawrth 2012

⁶⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

⁷⁰ ibid

⁷¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

82. Roedd aelodau o'r cyhoedd yn cefnogi dull gweithredu sy'n debyg i'r dull a argymhellir gan Gymdeithas yr Iaith ym mharagraff 79.⁷²

83. O ran is-baragraff newydd (6), dywedodd Cymdeithas yr Iaith:

“Yn hynny o beth, mae Adran 2(6) y Bil yn tanseilio'r egwyddorion cyffredinol yn Adran 1 yn llwyr. Rydym o'r farn bod yr adran hon yn ddiangen, ac y dylid ei hepgor os yw'r Cynulliad o ddifrif ynghylch yr egwyddorion clodwiw a nodir yn Adran 1.”⁷³

84. Yn ei thyb hi, ni fyddai “llawer o ddiben rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg a'r hawl i'w defnyddio os ydych wedyn yn tanseilio hynny'n llwyr” yn is-baragraff newydd (6).⁷⁴

85. Roedd hefyd yn dadlau na fyddai dileu is-baragraff newydd (6) o'r Bil yn golygu y byddai'n rhaid cyfieithu pob gair a ddywedir ac a ysgrifennir i'r ddwy iaith swyddogol, gan y bydd y Cynllun yn manylu ar y darpariaethau penodol.⁷⁵

86. Fodd bynnag, dywedodd:

“Os yw'r Comisiwn am fynnu bod angen cymal tebyg ... rydym o'r farn bod yn rhaid cyfyngu ar ei gyffredinedd.”⁷⁶

87. Roedd Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru o'r farn bod y “geiriad yn is-baragraff (6) yn amwys ac yn aneglur”.⁷⁷ Roedd yn teimlo bod y geiriad yn “negyddol”, yn enwedig am ei fod yn dechrau â'r gair “nothing”.⁷⁸

88. O ran is-baragraff newydd (6), dywedodd Bwrdd yr Iaith:

“Deallwn mai diben y cymal yw rhoi hyblygrwydd i'r Cynllun leithoedd Swyddogol ddiffinio'r union wasanaeth a gaiff ei ddarparu. Er bod yr egwyddor yn rhesymol, mae risg y gellid ei ddehongli fel cymal sy'n golygu na fydd yn rhaid i'r Comisiwn ddarparu Cofnod y Trafodion yn gwbl ddwyieithog. Credwn y

⁷² Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 6, OLB 7, OLB 8 ac OLB 9

⁷³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 7 Mawrth 2012

⁷⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3A, Tystiolaeth Atodol

⁷⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

⁷⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 5

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 117, 15 Mawrth 2012

gellir goresgyn hynny drwy gynnwys cymal arall yn y Bil yn egluro y bydd o leiaf Cofnod trafodion cyfarfodydd llawn y Cynulliad yn cael ei gyhoeddi'n gwbl ddwyieithog.”⁷⁹

89. Mynegwyd barn debyg gan Gymdeithas Cyfiethwyr Cymru.⁸⁰

90. Nid oedd pawb yn cytuno ar is-baragraffau (5) a (6). Dywedodd undeb y PCS wrthym:

“Rydym yn fodlon â chynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â'r materion penodol y bydd y cynllun yn mynd i'r afael â hwy, sydd yn is-baragraff (5) newydd. Credwn fod is-baragraff (6) newydd yn ddarpariaeth realistig sydd ar y cyfan yn adlewyrchu'r arfer bresennol.”⁸¹

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

91. Wrth iddo esbonio pam y penderfynodd Comisiwn y Cynulliad i beidio â chynnwys dyletswydd ar wyneb y Bil i ddarparu Cofnod cwbl dwyieithog o drafodion, dywedodd y Comisiynydd:

“Rhoddwyd ystyriaeth i'w osod ar wyneb y Bil oherwydd bod hwn wedi codi yn ystod y broses ymgynghorol. Mae'n deg dweud bod nifer o bobl a oedd wedi bod yn rhan o'r broses honno wedi codi'r mater hwn gyda ni. Fel y bu imi ddweud ar ddechrau'r sesiwn dystiolaeth hon, y teimlad oedd bod y Bil yn trafod yr egwyddorion a bod y manylion ymarferol yn y cynllun. Roedd y rhai a oedd yn pwyso am hyn yn teimlo ei fod yn agor y drws i benderfyniad yn y dyfodol, o bosibl, i beidio â chyfieithu'r Cofnod, ond mewn gwirionedd byddai'n bosibl diwygio'r Ddeddf pe bai Comisiwn neu Gynulliad yn penderfynu nad oedd angen cyfieithu'r Cofnod. Yn y pen draw, lle bynnag y gwneir y datganiad hwnnw, mae'r penderfyniad yn nwylo'r Cynulliad cyfan ac Aelodau'r Cynulliad. Ni fyddai modd newid y drefn heb i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd gadarnhau hynny.”⁸²

92. Ychwanegodd:

⁷⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 1

⁸⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 2

⁸¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 232, 9 Chwefror 2012

“Ystyriodd y Comisiwn y materion hyn i gyd a phenderfynwyd mai'r cynllun oedd y lle priodol i sefydlu'r egwyddor o gyfieithu'r Cofnod a sicrhau Cofnod cwbl ddwyieithog.”⁸³

a dywedodd hefyd:

“... nid oes modd ail-wneud yr hyn ddigwyddodd bron ddwy flynedd yn ôl ym mis Gorffennaf 2010, pan benderfynwyd dod â Chofnod dwyieithog i ben. Nid oes modd gwneud hynny; unwaith y bydd y Bil hwn a'r cynllun hwn yn cael eu derbyn gan y Cynulliad, ni fydd modd gwneud hynny. Bydd yn rhaid iddo fod yn benderfyniad y Cynulliad yn llawn.”⁸⁴

93. Nid oedd y Comisiynydd yn derbyn y pwynt a wnaed gan Gymdeithas yr Iaith bod is-baragraff newydd (5) eisoes yn cynnwys rhestr o bethau y mae'n rhaid i'r cynllun eu cynnwys, gan ddadlau mai enghreifftiau oeddent na chawsant eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth.⁸⁵

94. O ran awgrym y Gymdeithas mewn perthynas â diwygio is-baragraff newydd (5), dywedodd y Comisiynydd:

“Os ydych yn rhoi rhestr o wasanaethau y dylid eu cyflwyno yn Gymraeg yn y Bil, rydych yn cyfyngu eich hun i'r rhestr honno. Byddai'n rhaid diwygio'r Bil er mwyn newid y rhestr. Felly, rydych yn cyfyngu ar yr hyn y gallwch ei wneud. Pe bai cyfle inni ymestyn y gwasanaethau yn y dyfodol, byddai'n rhaid inni ddiwygio'r Bil er mwyn caniatáu i hynny ddigwydd.”⁸⁶

95. Ychwanegodd nad oedd yn gweld sut y byddai rhestr o'r fath yn cryfhau'r Bil.⁸⁷

96. Mewn perthynas â'r darpariaethau yn neddfwriaeth New Brunswick, a'r materion a godwyd gan y tystion, dywedodd y Comisiynydd:

“Y rheswm pam mae New Brunswick yno fel esiampl yw bod cyfatebiaeth o ran cyfartaledd ieithyddol â'r sefyllfa yng

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 234, 9 Chwefror 2012

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 235, 9 Chwefror 2012

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 30, 21 Mawrth 2012

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 21 Mawrth 2012

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 21, 21 Mawrth 2012

Nghymru. Dyna'r gyfatebiaeth fwyaf o ran tebygrwydd a dyna pam mae yno, ond enghraifft yw yn unig."⁸⁸

97. Ychwanegodd:

"Roeddwn yn disgwyl i bobl dderbyn bod Deddf ieithoedd swyddogol yn New Brunswick ac y byddai honno'n enghraifft briodol, ond nid oeddwn yn disgwyl iddynt fanylu a dweud, 'Os yw hynny'n digwydd yn New Brunswick, mae hefyd yn bwysig i Gymru'. Nid dyna'r pwynt. Y pwynt yw ein bod yn darparu ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i anghenion."⁸⁹

98. Pan ofynnwyd iddo a fyddai is-baragraff newydd (6) yn galluogi Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol i leihau faint o wasanaethau cyfieithu a fyddai ar gael, atebodd y Comisiynydd drwy ddweud na fyddai.⁹⁰ Ychwanegodd:

"Gallai'r Comisiwn ddod i unrhyw benderfyniad ynglŷn â chyfieithu. Yn y pen draw, byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau fynd gerbron y Cynulliad, a bydd yn rhaid i bob Aelod Cynulliad benderfynu. Felly, ni fyddai'r Comisiwn yn gallu gwneud penderfyniad mewnol. Na fyddai'r hyn a ddigwyddodd yn y Cynulliad diwethaf, pan ddaethpwyd i ben â chyfieithu'r Cofnod, yn bosibl o dan y Bil hwn."⁹¹

99. Esboniodd cynghorydd cyfreithiol y Comisiwn fod is-baragraff newydd (6) yn:

"rhoi pwyslais ar yr hyn sydd yn y cynllun. Felly, bydd unrhyw newid yn y gwasanaeth yn ddibynnol ar y Cynulliad llawn yn cymeradwyo newidiadau yn y cynllun, fel yr eglurodd Rhodri. Dadl arall yn erbyn rhoi rhywbeth penodol yn y Bil yw bod hynny'n codi un agwedd ar wasanaeth dwyieithog i lefel wahanol i'r elfennau eraill. Er enghraifft, a yw Cofnod dwyieithog yn bwysicach na chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd neu ddarparu gohebiaeth ddwyieithog? Dyna pam yr ymdrinnir â'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn y cynllun, fel nad ydym yn tynnu un agwedd allan a'i rhoi yn y Bil, gan adael

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 9 Chwefror 2012

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 21 Mawrth 2012

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 9 Chwefror 2012

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 218, 9 Chwefror 2012

agweddau eraill sydd efallai'r un mor bwysig yn y cynllun yn unig.”⁹²

100. Nid oedd y Comisiynydd yn cytuno bod is-baragraff newydd (6) yn tansilio'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Dywedodd:

“Credaf fod yr egwyddor sylfaenol honno wedi'i diogelu'n ddigonol yn y Bil a'r cynllun. Mae'r cynllun iaith yn atebol, yn y pen draw, i'r Cynulliad cyfan ac Aelodau'r Cynulliad.”⁹³

101. Amlygodd cynghorydd cyfreithiol y Cynulliad oblygiadau dileu is-baragraff newydd (6):

“Y broblem gyda gwneud hynny yw na fyddai eithriad i'r egwyddor sylfaenol bod popeth yn ddwyieithog. Efallai bod hynny'n safbwynt cwbl resymol i'w gymryd, ond nid dyna sut mae'r Bil a'r cynllun wedi'u drafftio ar hyn o bryd, a byddai goblygiadau anferthol o ran cyllideb pe bai pob dim yn cael ei wneud yn ddwyieithog.”⁹⁴

102. Rhoddodd enghraifft i esbonio goblygiadau cyfieithu'r Cofnod llawn o drafodion pwyllgorau:

“... byddai goblygiadau ariannol sydd heb eu hadlewyrchu yn y cynllun ar hyn o bryd. Mae croeso i'r pwyllgor argymhell hynny wrth gwrs, a byddai hynny'n golygu bod yn rhaid inni fynd yn ôl ac ystyried beth sydd yn y cynllun a'r goblygiadau ariannol a fyddai'n cael eu hadrodd yn y memorandwm esboniadol maes o law. Mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd i roi hyblygrwydd fel bod gwasanaethau yn gallu datblygu, yn hytrach na bod popeth yn cael ei wneud yn ddwyieithog o'r dechrau.”⁹⁵

103. Dywedodd y Comisiynydd y byddai'n cynhesu at y syniad o ddileu is-baragraff newydd (6), yn hytrach na chael rhestr, fel yr awgrymwyd ar gyfer is-baragraff newydd (5):

⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 9 Chwefror 2012

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 225, 9 Chwefror 2012

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 21 Mawrth 2012

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 21 Mawrth 2012

“... oherwydd pe bai gennym restr, rwyf yn credu y byddai'r bobl sydd wedi rhoi tystiolaeth i chi wedyn yn cael dadl fawr am y blaenoriaethau a ddylai fod ar y rhestr honno, a buasem yn dod yn ôl i'r sefyllfa o ddadlau ynghylch manion y rhestr honno.”⁹⁶

Ein barn ni

Rydym wedi ystyried yn ofalus iawn y dystiolaeth gan y tystion a'r Comisiynydd ynghylch a ddylid rhoi'r ddyletswydd i ddarparu Cofnod cwbl ddwyieithog (o'r Cyfarfod Llawn) ar wyneb y Bil.

Rydym wedi ein hargyhoeddi ei bod yn briodol gwneud hynny. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried y dystiolaeth helaeth o blaid y dull gweithredu hwn, nid yn unig gan y tystion y clywsom ganddynt, ond hefyd gan y rheini a ymatebodd i ymarfer ymgynghori'r Comisiwn ar y Bil drafft a'r Cynllun drafft yn 2011. Hefyd, rydym yn cytuno gyda'r rhai sydd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd symbolaidd Cofnod y Trafodion i'r iaith Gymraeg, yn enwedig o ystyried ei statws yn Gofnod swyddogol prif sefydliad democrataidd Cymru.

Os mai bwriad Comisiwn presennol y Cynulliad yw y dylid cyhoeddi Cofnod y Trafodion yn ddwyieithog bob amser, ni welwn reswm rhesymegol pam na ddylai'r ymrwymiad ymddangos ar wyneb y Bil. Credwn fod y dull gweithredu hwn yn fwy eglur ac yn fwy sicr na phe bai ymrwymiad yn ymddangos yn y Cynllun leithoedd Swyddogol.

Pe bai Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol yn penderfynu nad yw'n dymuno cyhoeddi Cofnod dwyieithog o drafodion, credwn mai'r ffordd briodol i weithredu'r newid hwn fyddai drwy gyfrwng Bil arall yn hytrach na newid y Cynllun.

Cytunwn â Chymdeithas yr Iaith fod is-baragraff newydd (5), fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, eisoes yn nodi rhestr o bethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Cynllun.

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 21 Mawrth 2012

Rydym yn nodi tystiolaeth Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, fel y nodir ym mharagraffau 73 a 75, ynghylch dull posibl o ailddrafftio is-baragraff newydd (5).

Rydym yn nodi bod *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, y mae'r Bil hwn yn ceisio ei ddiwygio, yn diffinio trafodion y Cynulliad fel unrhyw drafodion y Cynulliad, pwyllgorau'r Cynulliad neu is-bwyllgorau pwyllgorau o'r fath.

Argymhelliad 2

Ar sail ein sylwadau uchod, rydym yn argymhell y dylai'r Comisiynydd gyflwyno gwelliannau wedi'u geirio'n addas i sicrhau bod yn rhaid i'r Cynllun gynnwys darpariaeth yn ymwneud â'r canlynol, heb gyfyngu ei hun iddynt:

- cyfieithu ar y pryd o un iaith swyddogol i'r llall;
- Cofnod cwbl ddwyieithog o holl drafodion y Cynulliad;
- system ar gyfer categorieddio pa ddogfennau eraill y dylid eu cyhoeddi yn y ddwy iaith swyddogol;
- cynllun gweithredu corfforaethol yn nodi targedau penodol, amserlenni a chyfrifoldebau;
- set o ddangosyddion perfformiad allweddol; a
- strategaeth sgiliau dwyieithog.

Yn ein barn ni, byddai'r dull hwn yn rhoi eglurder i'r dinesydd ynghylch y math o wasanaethau y byddai rhwymedigaeth ar Gomisiwn y Cynulliad i'w darparu'n ddwyieithog.

Wrth ddod i'r casgliadau hyn, rydym hefyd wedi ystyried y dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â'r Cynllun, sydd wedi'i hamlinellu ym mhennod 6.

Rydym yn cytuno â Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru, a awgrymodd fod effaith is-baragraff newydd (6) yn amwys ac aneglur.

Mae gennym rai amheuon hefyd ynghylch goblygiadau'r ddarpariaeth hon i Gomisiwn y Cynulliad o ran darparu gwasanaethau dwyieithog.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymell, felly, y dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau bod is-baragraff newydd (6) yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y diben a fwriadwyd iddo.

Is-baragraff newydd (8)

Tystiolaeth gan dystion

104. Er nad oedd sefydliadau wedi gwneud sylwadau penodol am y ddarpariaeth hon, roedd nifer ohonynt wedi cyfeirio at y modd y dylai'r Cynulliad graffu ar y Cynllun.

105. Dywedodd Bwrdd yr Iaith:

“... credwn fod angen ystyriaeth bellach er mwyn sicrhau atebolrwydd y Comisiwn wrth weithredu'r cynllun hwn. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft fe nodwyd: *'Os nad yw'r Comisiwn felly yn atebol i reoleiddiwr annibynnol megis Comisiynydd y Gymraeg, bydd angen trefniadau atebolrwydd cadarn ac eglur yn y Cynulliad. Er enghraifft cynigiwn fod pwyllgor o aelodau yn cael cyfrifoldeb am graffu dros gyflawniad y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog a bod dyletswydd ar y Comisiwn i adrodd i'r pwyllgor. Dylai'r pwyllgor hefyd allu galw ar dystiolaeth a barn allanol'*.”⁹⁷

106. Pan gafodd ei holi, ymhelaethodd ar y safbwynt hwn:

“Nid oes amheuaeth y bydd mwy o gyfrifoldeb o safbwynt craffu a monitro ar Aelodau'r Cynulliad yn sgîl y Bil. Mae'r bwrdd yn credu bod angen cael trefniadau sefydlog yn eu lle i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae angen egluro'r drefn honno yn y cynllun. Rwy'n credu mai mater i chi yw penderfynu a oes angen rhoi hynny ar wyneb y Bil ai peidio. Ein teimlad ni yw bod angen sicrhau bod y drefn honno yn glir yn y cynllun ei hun.”⁹⁸

107. Mynegodd yr Uned Ymchwil Iaith farn debyg:

⁹⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 1

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 30, 1 Mawrth 2012

“Er mwyn hyder y cyhoedd yn ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i wasanaethau dwyieithog mae’n rhaid i drefniadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn gydnerth ac eglur. Er mwyn cryfhau’r trefniadau ar fater atebolrwydd Comisiwn y Cynulliad ynghylch y Cynllun, byddai’n dda o beth pe bai modd nodi’r union fecanwaith (e.e. is-bwyllgor / pwyllgor arbenigol) y bydd yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad ei ddefnyddio ar gyfer adrodd ar weithredu’r Cynllun. Hefyd, dylid nodi’n glir ym mha ffyrdd y gall y cyhoedd, rhan-ddeiliaid eraill ac eraill â diddordeb gyfrannu at y broses hon.”⁹⁹

108. Aeth Cymdeithas yr Iaith yn bellach, gan awgrymu sefydlu “panel allanol parhaol i fod yn gyfrifol am fonitro’r Cynllun ar ran y Cynulliad”¹⁰⁰, a fyddai ag “elfen o annibyniaeth ar swyddogion y Comisiwn”.¹⁰¹ Ychwanegodd ei bod yn credu bod “angen elfen o allanolrwydd yn y gwaith o ddydd i ddydd”.¹⁰² Esboniodd hyn drwy ddweud:

“Ein pryder gyda phopeth yn digwydd yn fewnol yw bod perygl na fyddwn yn gallu gweld ffaeledau a’r cyfleoedd i wella pethau. Rydym yn meddwl y byddai golwg allanol yn helpu.”¹⁰³

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

109. O ran bod yn atebol i gorff allanol, fel yr awgrymwyd gan Gymdeithas yr Iaith, dywedodd y Comisiynydd y cafodd y mater hwn ei ystyried¹⁰⁴. Fodd bynnag, dywedodd:

“Yn y pen draw, mae’r cynllun hwn yn atebol i holl Aelodau’r Cynulliad, sydd wedi cael eu hethol gan bobl Cymru. Nid oes modd cael atebolrwydd ehangach na hynny.”¹⁰⁵

110. Pan gafodd y Comisiynydd ei holi ynghylch sylwadau Bwrdd yr Iaith am yr angen am drefniadau penodol i graffu ar y Cynllun a pham na chafodd darpariaeth o’r fath ei chynnwys yn y Bil nac yn y Cynllun, dywedodd y Comisiynydd:

⁹⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4

¹⁰⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹⁰¹ *ibid*

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 7 Mawrth 2012

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 77, 7 Mawrth 2012

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 192, 9 Chwefror 2012

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 194, 9 Chwefror 2012

“Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn unig; felly, nid yw’n caniatáu i ni wneud unrhyw beth yn wahanol.”¹⁰⁶

Ein barn ni

Nid ydym yn derbyn o anghenraid bod *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* mor gyfyngol ag yr awgrymwyd gan y Comisiynydd ym mharagraff 110.

Serch hynny, nid ydym yn credu y dylai’r Cynllun fod yn atebol i gorff allanol ac rydym yn cytuno gyda’r Comisiynydd y dylai fod yn atebol i’r Cynulliad.

O dan yr amgylchiadau, rydym yn fodlon â’r gofyniad yn is-baragraff newydd (8) i ddarparu ar gyfer gosod adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad i’w alluogi i graffu ar gyflawniadau Comisiwn y Cynulliad o ran ei ymrwymadau o dan y Cynllun.

Wrth lunio’r farn hon, rydym hefyd wedi ystyried y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â’r Cynllun ac a nodir ym mhennod 6.

Is-baragraff newydd (9)

Tystiolaeth gan dystion

111. Awgrymodd nifer o sefydliadau ddulliau gweithredu amgen i’r hyn a nodir yn is-baragraff newydd (9). Yn ôl Cymdeithas yr Iaith, byddai diwygio’r Cynllun:

“... yng nghanol tymor Cynulliad yn golygu mwy o amser i’w wneud yn iawn ac y byddai’r pwnc yn uchel ar restr y blaenoriaethau ar y pryd, gan fod llawer o bethau eraill yn digwydd yn ystod blwyddyn etholiad. Nid ydym yn teimlo’n gryf iawn am y peth; dim ond sylw ydoedd.”¹⁰⁷

112. Dywedodd Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru wrthym:

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 21 Mawrth 2012

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 62, 7 Mawrth 2012

“Credwn fod angen adolygu’r cynllun yn fwy aml na bob 5 mlynedd, i gyd-fynd â thymor y Cynulliad. Hefyd mae deddfwriaeth cydraddoldeb yn gyffredinol yn annog adolygu cynlluniau bob 3 blynedd a dyna’r arfer gyda Chynlluniau Iaith awdurdodau lleol bellach hefyd.”¹⁰⁸

113. Ychwanegodd:

“Mae’r byd yn gallu newid yn fawr iawn o fewn pum mlynedd. Mae’n anodd, gyda dogfennau sydd mor bwysig â chynlluniau iaith neu gynlluniau cydraddoldeb, er enghraifft, i ddal lan gyda chymaint o newidiadau os mai unwaith pob pum mlynedd yn unig y mae’r dogfennau hynny’n cael eu diwygio.”¹⁰⁹

114. Roedd undeb y PCS o blaid cael dull gwahanol o ddrafftio’r ddarpariaeth hon. Awgrymodd:

“Mae’r ffaith bod y Cynulliad presennol wedi ei ethol, yn eithriadol, am 5 mlynedd yn gamarweiniol i raddau; bydd y mwyafrif o dymhorau’r Cynulliad yn para am 4 mlynedd. Golyga’r ddarpariaeth 5 mlynedd ei fod yn bosibl na fydd y cynllun yn cael ei adolygu o gwbl yn ystod Cynulliad cyfan. Yn ein barn ni, dylid adolygu’r cynllun o leiaf unwaith bob Cynulliad a dylai’r Bil gael ei ddiwygio i wneud hyn yn glir.”¹¹⁰

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

115. Pan holwyd y Comisiynydd ynghylch cyfnod adolygu’r Cynllun, dywedodd:

“Byddwn yn adolygu rhan o’r cynllun—mewn perthynas â’r Cofnod—yn yr haf, a byddwn yn adolygu gwahanol adrannau ohono yn ôl y galw. Bydd yn cael ei adolygu, wrth gwrs, ar ddiwedd bob sesiwn, er mwyn caniatáu ar gyfer cyflwyno cynllun newydd ar gyfer y sesiwn sy’n dilyn. Nid wyf yn gweld bod gosod cyfnod o flwyddyn, dwy flynedd, tair blynedd neu 18 mis o lawer

¹⁰⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 5

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 126, 15 Mawrth 2012

¹¹⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

o gymorth. Buaswn yn gobeithio y byddai'n cael ei adolygu yn ôl y galw."¹¹¹

116. Ychwanegodd un o swyddogion y Comisiwn:

"Y pwynt sylfaenol i'w gofio yw y byddwn yn adrodd yn ôl ac yn rhoi adroddiad ar gydymffurfiaeth yn flynyddol. Byddwn yn cyflwyno hwnnw gerbron y Cynulliad cyfan. Fel rhan o'r broses honno, os oes unrhyw newid, os oes angen ehangu, neu os ydym wedi ehangu'r ddarpariaeth eisoes a bod angen adlewyrchu hynny yn y cynllun, bydd modd gwneud hynny nid o fewn tair blynedd ond yn flynyddol. Bydd swmp y gwaith o ran sicrhau bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn addas yn cael ei adolygu wrth inni baratoi ar gyfer Cynulliad newydd. Mae rhywfaint o hyblygrwydd ar gael yn flynyddol i edrych ar y ddarpariaeth. Y pwynt allweddol yw y bydd y Cynulliad cyfan â llaw yn hynny."¹¹²

Ein barn ni

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn cytuno gyda barn undeb y PCS y dylai'r Cynllun gael ei adolygu'n ffurfiol o leiaf unwaith bob Cynulliad. Yn ein barn ni, mae'r dull hwn yn fwy hyblyg ac mae'n osgoi'r posibilrwydd na fydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn ystod unrhyw Gynulliad sy'n para dim ond pedair blynedd.

Argymhelliad 4

Felly, rydym yn argymhell bod y Comisiynydd yn cyflwyno gwelliant yn nodi y dylid adolygu'r Cynllun yn ffurfiol o leiaf unwaith yn ystod pob Cynulliad.

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 21 Mawrth 2012

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 56, 21 Mawrth 2012

Is-baragraff newydd (10)

Tystiolaeth gan dystion

117. Roedd safbwyntiau cymysg ymhlith y tystion ynghylch y ddarpariaeth hon. Roedd Bwrdd yr Iaith¹¹³ a Chymdeithas yr Iaith¹¹⁴ o'r farn ei bod, yn gyffredinol, yn rhesymol.

118. Fodd bynnag, gwnaeth Gymdeithas yr Iaith Gymraeg rai pwyntiau ychwanegol. Roedd yn teimlo:

“y dylai'r Bil ei gwneud yn eglur y bydd cyfnod penodol o ymgynghori cyhoeddus fel na fyddai modd newid y cynllun yn fympwyol, ac fel bod sicrwydd y bydd cyfle gan bobl Cymru i roi eu barn ar gynllun drafft.”¹¹⁵

119. Roedd hefyd yn teimlo y dylid diwygio is-is-baragraff newydd (10)(b) er mwyn ychwanegu'r Comisiynydd Iaith at y sefydliadau a restrir. Dywedodd:

“Rydym yn deall y bydd y broses sydd yn y Bil y tu hwnt i ... swyddogaeth y Comisiynydd mewn perthynas â safonau, ond fel y rheoleiddiwr cydnabyddedig ym maes y Gymraeg, rydym o'r farn y byddai gan Gomisiynydd y Gymraeg ddiddordeb yn y broses hon yn ogystal ag arbenigedd perthnasol i fod o gymorth....”¹¹⁶

120. Roedd Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru yn teimlo y “dylid hefyd gynnwys pob sefydliad a gwmpesir gan ddarpariaethau'r Mesur Iaith”¹¹⁷ yn y rhestr a geir yn is-is-baragraff newydd (10)(b). Mae hyn oherwydd “y byddai gan y sefydliadau hynny, sy'n gorfod gweithredu'n ddwyieithog, farn a phrofiad o weithio'n ddwyieithog a allai fod o fudd mewn cyfnod ymgynghori ar y cynllun hwn”.¹¹⁸

121. Roedd undeb y PCS yn cytuno â Chymdeithas yr Iaith ynghylch y ddyletswydd i ymgynghori cyn gosod cynllun newydd neu ddiwygiadau

¹¹³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

¹¹⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹¹⁵ *ibid*

¹¹⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹¹⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 5

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 135, 15 Mawrth 2012

i gynllun. Roedd yn teimlo y “dylid nodi’n glir ei fod yn ofynnol i’r Cynulliad ymgynghori’n gyhoeddus”¹¹⁹ oherwydd:

“... er ei fod yn cynnwys gofyniad i osod drafft o Gynllun (neu welliant i gynllun) o flaen y Cynulliad, nid yw’n ymddangos bod is-baragraff (10) newydd yn cynnwys unrhyw ofyniad i ymgynghori. Er bod gofyniad ar Gomisiwn y Cynulliad i ystyried sylwadau gan y cyhoedd (is-baragraff (10)(b)(i) newydd) neu’r Cynulliad (is-baragraff (10)(b)(ii) newydd), bydd yr ymdrech a wneir i gasglu sylwadau yn cael cryn effaith ar y tebygolrwydd y bydd sylwadau’n dod i law.”¹²⁰

122. Nid oedd yn teimlo y dylai fod gofyniad ffurfiol i ymgynghori â chyrff nac unigolion penodol, “os yw’r gofyniad i ymgynghori yn cael ei ddrafftio’n ddigon eang fel ei fod yn cynnwys pawb sy’n debygol o gael eu heffeithio gan y cynllun, neu sydd ag arbenigedd penodol”.¹²¹

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

123. Pan ofynnwyd iddo sut y byddai’r broses o fabwysiadu Cynllun fel y nodir yn is-baragraff newydd (10) yn gweithio’n ymarferol, dywedodd y Comisiynydd wrthym:

“Mae’n ddarostyngedig i’r gofynion sy’n cael eu nodi yn y Bil, ac mae’n ddibynnol hefyd ar y Cynulliad ar y pryd. Gellid penderfynu cynnal ymgynghoriad trwyadl, a hwyrach byddai llai o graffu gan y pwyllgorau. Ar y llaw arall, gellid penderfynu na fyddai angen ymgynghoriad llawn a byddai mwy o graffu yn y pwyllgorau. Yn y pen draw, mater i’r pwyllgorau yw penderfynu ar eu rhaglen.”¹²²

124. Ychwanegodd un o gynghorwyr cyfreithiol y Comisiwn:

“Diben yr is-baragraff yw sicrhau bod yr ymgynghoriad ar y cynllun sydd wedi digwydd, ac sy’n digwydd ar hyn o bryd, yn gymwys ar gyfer mabwysiadu cynllun gan y Cynulliad, yn hytrach nag aros nes bod y Bil wedi mynd drwodd ac yna ailgychwyn proses ymgynghori ar y cynllun. Felly, mae’r broses

¹¹⁹ *ibid*

¹²⁰ *ibid*

¹²¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

¹²² Cofnod y Trafodion, paragraff 239, 9 Chwefror 2012

bresennol yn cyfrif ar gyfer yr ymgynghoriad o ran is-baragraff (10). Fodd bynnag, ni fydd yn caniatáu i'r Cynulliad fabwysiadu'r cynllun cyn i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad."¹²³

Ein barn ni

Ni chawsom ein hargyhoeddi bod angen cyfeirio'n benodol at yr angen i ymgynghori yn is-baragraff newydd (10) gan ein bod yn credu bod hyn yn ymhlyg yn y ddarpariaeth. Yn ogystal, nid ydym o'r farn bod angen ychwanegu rhagor o sefydliadau at y rhestr y cyfeiriwyd ati yn is-is-baragraff newydd (10) (b).

Gan hynny, rydym yn fodlon ag is-baragraff newydd (10) fel y'i drafftwyd.

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 9 Chwefror 2012

6. Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Cefndir

125. Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol wedi'i gynnwys fel Atodiad B i'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.¹²⁴

126. Rydym eisoes wedi dod i'r casgliad ym mhennod 1 ein bod yn credu bod cynllun iaith yn addas ar gyfer sicrhau y gall Comisiwn y Cynulliad gyflawni ei ddyletswyddau fel y'u nodir yn y Bil.

127. Rydym hefyd wedi gwneud sylwadau ym mhennod 3 ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a manylion y Cynllun, ac rydym wedi argymhell ffyrdd y credwn y dylid newid y cydbwysedd presennol.

128. Mae ein sylwadau yn y bennod hon yn canolbwyntio ar gynnwys y cynllun hwnnw ac yn benodol ym mha feysydd y credwn y mae angen gwneud gwelliannau.

Sylwadau cyffredinol

Tystiolaeth gan dystion

129. Roedd ymateb cymysg ymysg yr ymatebwyr hynny a roddodd eu sylwadau cyffredinol ar y Cynllun. Trafodir y sylwadau ar agweddau penodol mewn rhannau diweddarach o'r adroddiad.

130. Roedd rhai sefydliadau yn croesawu'r Cynllun yn gyffredinol.

131. Er fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi nodi'r meysydd lle na chafodd ei farn am fersiwn blaenorol o'r Cynllun ei ystyried, dywedodd:

“Ar y cyfan credwn fod y Cynllun yn cefnogi uchelgais y Cynulliad o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.”¹²⁵

132. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru:

“Ar y cyfan, mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru o'r farn y bydd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wireddu'r uchelgais o fod yn sefydliad

¹²⁴ Gweler paragraff 18 o'r adroddiad hwn.

¹²⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 1

gwirioneddol ddwyieithog a thrwy hynny ddangos arweiniad ymarferol a chadarn i bobol Cymru.”¹²⁶

133. Fodd bynnag, mynegodd bryderon ynghylch paragraffau 58 i 60 o’r Cynllun ar gyfer cyhoeddi Cofnod cwbl ddwyieithog o’r trafodion o fewn pum niwrnod gwaith.¹²⁷

134. Roedd yn credu nad oedd y darpariaethau hyn:

“... yn cyflawni’r nod o drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal oherwydd y rhoir y flaenoriaeth i gyfieithu’n gyflym i’r Saesneg (am resymau ymarferol digon dilys) a bod rhaid i’r Gymraeg aros.”¹²⁸

135. Ychwanegodd:

“Mae’n bwysig bod Cofnod cwbl ddwyieithog ar gael, yn sicr o safbwynt cysondeb rhwng y ddwy iaith pan gaiff datganiadau eu gwneud. Mae angen edrych eto ar gyflymu’r broses o gael Cofnod cwbl ddwyieithog.”¹²⁹

136. Mynegodd sefydliadau eraill hefyd rywfaint o amheuaeth ynghylch y Cynllun.

137. Teimlai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg “bod diffyg manylion a diffyg uchelgais yn y drafft Gynllun fel y mae ar hyn o bryd.”¹³⁰

138. Teimlai’r Uned Ymchwil Iaith fod lle i wneud gwelliannau pellach¹³¹ a daeth i’r casgliad a ganlyn:

“Nid yw’r Cynllun, fel y mae, yn adlewyrchu yr arfer gorau ynghylch Cynlluniau Iaith Gymraeg, gan gynnwys Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.”¹³²

139. O ganlyniad, teimlai y gallai canllawiau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fod yn ddefnyddiol¹³³ ac ychwanegodd:

¹²⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 2

¹²⁷ ibid

¹²⁸ ibid

¹²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 140, 7 Mawrth 2012

¹³⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹³¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 13 ac 86, 15 Mawrth 2012

¹³² Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4

“Mae’r cynllun wedi gwella, ond byddai cael cynllun gweithredu a thargedau, yn ogystal â dilyn arfer da fel mater o drefn, yn fodd o wella’r cynllun ymhellach.”¹³⁴

140. Cyfeiriodd y PCS a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg at yr angen am ymgynghori pellach. Dywedodd y PCS ei fod yn teimlo y dylai hyn ddigwydd “ar ôl rhoi’r Bil ar waith a chyn i’r Cynulliad fabwysiadu’r cynllun newydd”.¹³⁵ Mynegodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg farn debyg:

“... [mae] angen diwygio'r Bil a'i roi gerbron y Cynulliad i'w basio ond heb Gynllun, yna datblygu drafft pellach o Gynllun ar sail yr ymgynghoriad hwn, ar sail ymchwil ehangach i'r hyn ddylai fod mewn cynllun o'r fath, ac ar sail y Bil terfynol wedi'i basio. Yna dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft mwy datblygedig hwnnw o Gynllun.”¹³⁶

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

141. Cawsom ein cyngori gan y Comisiynydd fod y Cynllun yn adeiladu ar y ddarpariaeth a amlinellwyd yng nghynllun 2007.¹³⁷

142. Amlinellodd hefyd sut y mae’r Cynllun wedi newid ers yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd arno yn 2011:

“Newidiwyd yr enw o ‘gynllun gwasanaethau dwyieithog’ i ‘gynllun ieithoedd swyddogol’. Ailddrafftwyd y paragraffau a oedd yn cyfeirio at y Cofnod i adlewyrchu penderfyniad y Comisiwn ar 24 Tachwedd. Ehangwyd yr adran yn ymwneud â thechnoleg gwybodaeth. Addaswyd yr uchelgais, gan hepgor yr elfen orfodol i’r holl staff gael rhai sgiliau yn y ddwy iaith. Ychwanegwyd paragraff i esbonio pam nad yw Aelodau yn atebol i ofynion y Cynulliad, ac ychwanegwyd paragraff arall i esbonio pam nad yw cynllun y Comisiwn yn atebol i gomisiynydd y Gymraeg”.¹³⁸

¹³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 15 Mawrth 2012; cyfeirir at y canllawiau yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, OLB 4.

¹³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 15 Mawrth 2012

¹³⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

¹³⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 275, 9 Chwefror 2012

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 273, 9 Chwefror 2012

143. Nid oedd y Comisiynydd o blaid cynnal rhagor o ymgynghoriadau ffurfiol. Dywedodd:

“Rydym wedi cael dau ymgynghoriad ar y Bil a’r cynllun, ac nid wyf yn gweld bod unrhyw werth mewn ymgynghoriad arall. Rwy’n awyddus i symud ymlaen, a buaswn yn gobeithio bod y Cynulliad yn awyddus i symud ymlaen gyda’r Bil hwn. Buasai ymgynghoriad arall yn gohirio’r broses honno. Mae gan fudiadau ddigon o gyfle i weithredu drwyddoch chi fel aelodau o’r pwyllgor hwn neu drwy’r Cyfarfodydd Llawn os ydynt yn teimlo bod materion y maent am eu codi.”¹³⁹

144. Cydnabu un o swyddogion y Comisiwn na fu’n bosibl eto i gyfarfod ag undeb y PCS i drafod goblygiadau’r Cynllun i staff Comisiwn y Cynulliad.¹⁴⁰ Ychwanegodd:

“Gan mai staff fydd yn gyfrifol am roi’r ddarpariaeth ar waith, byddwn yn parhau i drafod â staff dros y cyfnod nesaf. Felly, bydd cyfnod pellach o ymgynghori gyda staff i sicrhau y gallwn weithredu yn unol â’r cynllun drafft.”¹⁴¹

145. Mewn tystiolaeth atodol, nododd Comisiwn y Cynulliad y bydd ymgynghori pellach â staff yn dechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 30 Ebrill.¹⁴²

Ein barn ni

Rydym yn cytuno â’r tystion sydd wedi awgrymu bod angen gwella agweddau ar y Cynllun ac rydym yn cyfeirio’n benodol at y rhain yng ngweddill y bennod hon.

Cytunwn â’r Comisiynydd nad oes angen cynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol arall o gofio’r ymgynghoriadau allannol cymharol eang a gynhaliwyd eisoes a hefyd y ffaith bod angen i’r Cynllun gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad yn y Cynulliad cyn y gellir ei fabwysiadu.

¹³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 80, 21 Mawrth 2012

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 21 Mawrth 2012

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 21 Mawrth 2012

¹⁴² Comisiwn y Cynulliad, Tystiolaeth Atodol

Argymhelliad 5

Fodd bynnag, croesawn fwriad Comisiwn y Cynulliad i ymgynghori â'i staff ynghylch y Cynllun cyn iddo gael ei fabwysiadu ac rydym yn argymhell y dylid sicrhau bod crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw ar gael i'r staff unwaith y caiff ei gwblhau.

Argymhelliad 6

Fel rhan o'r broses hon, argymhellwn yn gryf fod Comisiwn y Cynulliad yn cwrdd ag undeb y PCS i drafod rhai o'i bryderon ynghylch y Cynllun, yr ydym yn cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Cynllun gweithredu a thargedau

Tystiolaeth gan dystion

146. Un o'r prif feysydd sy'n peri pryder o ran y Cynllun a fynegwyd gan nifer o'r dystion yw'r ffaith nad yw'n cynnwys cyfeiriad at gynllun gweithredu nac unrhyw dargedau y gellir mesur y cynnydd yn eu herbyn.

147. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrthym:

“Er hynny, credwn mai'r diffyg mwyaf yn y Cynllun fel mae'n sefyll yw absenoldeb unrhyw gyfeiriad at gynllun gweithredu a thargedau er mwyn mesur cynnydd. Bydd angen cyfundrefn o'r fath er mwyn gweithredu'r Cynllun yn effeithiol. Mae'n debyg fod gwaith ar fynd i ddatblygu cynllun gweithredu a gallwn ddeall pam na fyddai'n ymarferol i ddilyn yr un broses fabwysiadu a'r Cynllun leithoedd Swyddogol ei hun, ond dylid o leiaf cyfeirio ato yn y Cynllun.”¹⁴³

148. Pan holwyd y Bwrdd, dywedodd:

“... mae'n profiad ni o ddelio â chynlluniau iaith yn dangos, os oes targedau da mewn cynllun, sy'n cael eu monitro a'u mesur, mae'r cynllun yn gweithio. Heb y rheini, mae'n llawer iawn mwy penagored ac yn anodd iawn i unrhyw Aelod etholedig graffu ar

¹⁴³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 1

yr hyn sy'n digwydd. Felly, maent yn elfen hanfodol o'r cynllun.”¹⁴⁴

149. Ychwanegodd:

“... ym mhrofiad y bwrdd â sefydliadau eraill, mae angen gosod cysondeb o ran safonau corfforaethol. Rhaid wedyn osod y targedau yn y cynllun, neu mewn cynllun gweithredol i gyd-fynd ag ef, a'r rheini'n dargedau i'r corff cyfan—hynny yw, nid oes gennych dargedau a chynlluniau gwahanol mewn adrannau gwahanol, heb fod rhywbeth canolog a chyson i sicrhau bod pob adran yn symud i'r un cyfeiriad ac yn gweithio i'r un gofynion. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael y math hwnnw o ddatganiad yn y cynllun ieithoedd swyddogol, a datblygiad o hynny o ran sut i'w weithredu.”¹⁴⁵

150. Teimlai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod y Cynllun yn:

“... rhy niwlog ac amhendant pan ddylai fod yn gynhwysfawr, yn gadarn, yn arloesol ac yn anelu at rywbeth pendant. Yn fwy na dim, mae'n rhaid cael targedau eglur yn y Cynllun sy'n dangos uchelgais, a dangosyddion y bydd modd i Gymru gyfan weld cynnydd (neu beidio) yn eu herbyn.”¹⁴⁶

151. Ymhelaethodd ar y mater hwn wrth gael ei holi drwy ddweud:

“Byddai fframwaith amser a thargedau'n golygu y byddai'n bosibl i Aelodau'r Cynulliad graffu ar adroddiadau blynyddol i weld a oes cynnydd wedi digwydd ac os ydynt wedi cyrraedd y nod o ran targedau sydd wedi'u gosod. Dylai'r Cynulliad osod esiampl i gyrff eraill.”¹⁴⁷

152. Yn yr un modd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cyfeiriodd at y berthynas rhwng y Cynllun a gwahanol feysydd gwasanaeth Comisiwn y Cynulliad, gan ddweud:

“Byddai gadael i wasanaethau greu eu cynlluniau eu hunain yn mynd yn groes i ysbryd y Bil. Mae angen arweiniad o'r canol ar

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 1 Mawrth 2012

¹⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 38 -42, 1 Mawrth 2012

¹⁴⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 7 Mawrth 2012

sut y dylid gosod yr egwyddorion. Yn amlwg, bydd amrywiaeth o fewn meysydd gwasanaeth am eu bod yn darparu gwasanaethau gwahanol, ond dylai'r cynllun osod pethau yn eu lle a gwneud hynny'n eglur.”¹⁴⁸

153. Dywedodd yr Uned Ymchwil Iaith:

“Fel sydd yn arferol mewn Cynlluniau Iaith Gymraeg sydd yn arddel arfer da, dylai Comisiwn y Cynulliad ddarparu Cynllun Gweithredu manwl ar yr un pryd ag y cyflwynir y Cynllun Ieithoedd Swyddogol gan nodi yn union cyfrifoldebau'r sawl sy'n gyfrifol am ei weithredu, y targedau i'w cyflawni a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith ... Wrth wneud hyn y bydd yn fanwl glir sut y bwriedir gweithredu'r Cynllun.”¹⁴⁹

154. Nododd hefyd fod “gwahanol gyrff yn y gorffennol wedi ei ganfod yn ddefnyddiol yn ymarferol i gael rhyw fath o dargedau, amserlen a chynllun gweithredu fel rhan o'r cynllun gwreiddiol er mwyn hwyluso'r broses o graffu”.¹⁵⁰

155. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod angen targedau mewn perthynas â'r strategaeth sgiliau dwyieithog:

“Byddai'n dda petai'r strategaeth sgiliau iaith yn fanwl, gyda thargedau ac amserlen glir ar gyfer cyrraedd gwahanol dargedau, fel bod pawb yn deall lle maent yn sefyll.”¹⁵¹

156. Gwnaeth Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru ddangos ei gefnogaeth i gael cynllun gweithredu gyda thargedau penodol ar gyfer bodloni amcanion y Cynllun.¹⁵²

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

157. Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd pam nad oedd targedau penodol ac amserlen weithredu wedi'u cynnwys yn y Cynllun, dywedodd:

“Oherwydd ein bod yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth. Yr egwyddor sylfaenol yw ein bod yn gwneud popeth o fewn ein

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 7 Mawrth 2012

¹⁴⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 15 Mawrth 2012

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 15 Mawrth 2012

¹⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 194, 15 Mawrth 2012

gallu i sicrhau y gall unrhyw Aelod wneud ei waith drwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall.”¹⁵³

158. Fodd bynnag, dywedodd hefyd y byddai targedau yn y strategaeth.¹⁵⁴ Pan ofynnwyd iddo eto pam na ellid cynnwys targedau a'r strategaeth sgiliau dwyieithog yn y Cynllun, dywedodd:

“Oherwydd y bydd yn rhaid i bob gwasanaeth baratoi ei strategaeth mewn ymateb i'r cynllun ieithoedd swyddogol. Mae'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn atebol i holl Aelodau'r Cynulliad drwy'r adroddiad blynyddol. Dyna'r cyfle i graffu ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ystod y flwyddyn ac i weld a ydym wedi cyrraedd y nod o ran yr egwyddor o ganiatáu i Aelodau weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.”¹⁵⁵

159. Ychwanegodd:

“Bydd y strategaeth sgiliau yn cynnwys targedau wedi'u seilio ar gynlluniau sgiliau pob gwasanaeth unigol. Byddwn yn adrodd yn ôl ar y llwyddiannau o ran cyrraedd y targedau hynny a bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Comisiwn a'i chyflwyno i'r Cynulliad. Felly, buaswn yn dadlau bod y targedau yno, a hefyd bod atebolrwydd o ran y targedau hynny”.¹⁵⁶

160. Eglurodd un o swyddogion y Comisiwn sut y byddai'r system yn cael ei gweithredu yn ymarferol:

“O dan y cynllun, bydd strategaeth sgiliau yn cael ei datblygu a'i gweithredu. Mae datblygiad ac esblygiad y strategaeth honno yn ddibynnol ar gynlluniau datblygu sgiliau iaith. Bydd pob gwasanaeth o fewn y Cynulliad yn eu datblygu, gan ystyried anghenion ein cwsmeriaid—Aelodau Cynulliad a'r cyhoedd. Bydd cydymffurfiad â'r cynlluniau hynny'n cael ei gynnwys mewn adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad. Felly, mae'r cynllun yn eistedd ar y top, mae'r strategaeth sgiliau yn eistedd oddi tano, a bydd pob adran wedyn yn datblygu cynllun—ac, wrth gwrs, mae ganddynt

¹⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 277, 9 Chwefror 2012

¹⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 279, 9 Chwefror 2012

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 287, 9 Chwefror 2012

¹⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 21 Mawrth 2012

gynlluniau datblygu sgiliau iaith ar hyn o bryd. Bydd y cyfan oll yn bwydo i mewn i adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Cynulliad yn flynyddol".¹⁵⁷

Ein barn ni

Rydym eisoes wedi argymhell y dylid cynnwys cynllun gweithredu gyda thargedau yn y Cynllun ac y dylid cynnwys gofyniad penodol i'r perwyl hwn ar wyneb y Bil.

Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn ymwybodol o'r gefnogaeth gref i gynllun gweithredu a thargedau a phwysigrwydd dogfennau o'r fath i'r tystion.

Argymhelliad 7

Fel nad oes unrhyw amheuaeth, rydym yn argymhell yn gryf y dylid diwygio'r Cynllun i gynnwys cynllun gweithredu a thargedau a fydd yn galluogi i'r Cynllun gael ei fonitro'n effeithiol a bod gwaith craffu effeithiol arno, os nad yw'r Comisiynydd yn bwriadu diwygio'r Bil fel yr awgrymir yn Argymhelliad 2.

Argymhelliad 8

Rydym hefyd yn argymhell y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y Cynllun i egluro'r berthynas rhwng y Cynllun yn ei gyfanrwydd a dogfennau cysylltiedig, fel y cynllun gweithredu a argymhellwn, y strategaeth sgiliau dwyieithog a'r cynlluniau meysydd gwasanaeth unigol amrywiol y cyfeiriodd Comisiwn y Cynulliad atynt.

Oherwydd sut y drafftiwyd y Cynllun ar hyn o bryd, ni chredwn fod digon o eglurder ynghylch sut y mae'r dogfennau hyn yn cysylltu â'i gilydd ac, o ganlyniad, sut y bydd y system gyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog yn gweithio mewn gwirionedd. Yn ein barn ni, byddai cynnwys y wybodaeth y cyfeirir ati yn Argymhelliad 8 yn ei gwneud yn haws i ddeall y system ac yn hwyluso'r broses graffu.

¹⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 21 Mawrth 2012

Yr iaith a ddefnyddir

Tystiolaeth gan dystion

161. Mynegodd naw o'r 11 o sefydliadau ac unigolion a ymatebodd i'n hymarfer ymgynghori bryder ynghylch y geiriad a'r termau penodol a ddefnyddir yn y Cynllun drafft.

162. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

“Mae defnydd o eiriadau fel ‘Ein huchelgais yw...’ a ‘Byddwn yn ceisio...’ yn wan ac angen eu disodli gan eiriad mwy pendant.”¹⁵⁸

163. Cyfeiriodd yr Uned Ymchwil Iaith at 10 enghraifft lle'r oedd yn credu bod amwysedd mewn perthynas â geiriad y Cynllun.¹⁵⁹

164. Cyfeiriodd Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru at rannau o'r Cynllun lle y gellid gwella neu gryfhau'r geiriad.¹⁶⁰

Amlygodd rai o oblygiadau posibl defnyddio geiriad amwys:

“... [rydym] wedi gweithio ym maes amwyster am lawer yn rhy hir o ran geiriad amryw o gynlluniau iaith cynnar yn enwedig. Ein profiad ni yw ei bod yn rhoi ffordd i bobl i beidio â gweithredu'r hyn y maent i fod i'w weithredu. Os ydych yn mynd i baratoi cynllun, pam nad ydych yn ei weithredu a'i fonitro a sicrhau ei fod yn cael ei wireddu? Mae geiriau fel hyn, os rhywbeth, yn gweithio yn erbyn holl bwrpas creu cynllun yn y lle cyntaf.”¹⁶¹

165. Roedd o'r farn bod:

“... cyfle yn y fan hon i ddefnyddio geiriau sydd yn rhoi ychydig yn fwy o synnwyr o fod yn realistig ac y bydd y pethau hyn yn digwydd, yn hytrach na bod yn ddymuniad neu yn freuddwyd hyfryd am y dyfodol.”¹⁶²

¹⁵⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹⁵⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4

¹⁶⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 5

¹⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 149, 15 Mawrth 2012

¹⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 15 Mawrth 2102

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

166. Pan holwyd y Comisiynydd am farn y tystion ynghylch geiriad y Cynllun, dywedodd:

“Mae’n bwysig, yng nghyd-destun y cynllun a’r Bil, fod gennym uchelgais, a’r uchelgais yw cynnig y gwasanaeth gorau posibl o ran y defnydd o’r ieithoedd swyddogol o fewn y Cynulliad. Y broblem yw, pe baem yn dechrau nodi pethau penodol a mynd yn prescriptive iawn ynglŷn â’r hyn rydym yn ei gynnig, gallem ganfod ein hunain mewn sefyllfa lle buasai’r diffyg hyblygrwydd yn cyfyngu’r hyn rydym yn gallu ei gynnig yn hytrach na’i hyrwyddo.”¹⁶³

Ein barn ni

Rhannwn farn nifer o’r tystion fod geiriad y Cynllun yn amwys mewn manau. Nodwn fod nifer o’r tystion, wrth gyfleu’r farn hon, wedi awgrymu geiriad amgen.

Argymhelliad 9

Felly, rydym yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad adolygu’r holl awgrymiadau a wnaed gan y tystion i wella geiriad y Cynllun gyda’r bwriad o’i wneud yn ddogfen fwy pendant a llai amwys.

Cyfieithu ymatebion i ymgynghoriadau

Tystiolaeth gan dystion

167. Cyfeiriodd rhai sefydliadau at baragraff 51 o’r Cynllun drafft, sy’n nodi:

“Bydd ceisiadau am ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau pwyllgor yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog a byddwn yn gwneud cais i ddogfennau a geir gan sefydliadau allanol neu drydydd parti y bwriedir eu cyhoeddi a / neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol fod yn ddwyieithog. Dylai’r sefydliadau hynny sydd â chynlluniau, safonau, neu bolisiau iaith Gymraeg gyflwyno ymatebion yn y ddwy iaith i sicrhau y gall Aelodau’r Cynulliad a’r cyhoedd

¹⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 21 Mawrth 2012

ymateb i'r trafodion yn y ddwy iaith. Lle nad yw'n bosibl cael y dogfennau yn y ddwy iaith, byddwn yn eu cyhoeddi yn yr iaith y cyflwynwyd hwy yn wreiddiol gan nodi mai dim ond yn yr iaith honno y'u cyflwynwyd."

168. Roedd Cymdeithas Cyfiethwyr Cymru¹⁶⁴ a Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru¹⁶⁵ yn croesawu'r disgwyliad y dylai sefydliadau sydd â chynlluniau iaith Gymraeg gyflwyno ymatebion yn ddwyieithog.

169. Wrth gyfeirio at y paragraff hwn, roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg o'r farn na ddylid gofyn i "bobl gyffredin' gyflwyno eu hymatebion yn ddwyieithog ond pe baent yn cael eu cyhoeddi, y dylai'r Cynulliad eu cyfieithu fel eu bod ar gael yn ddwyieithog.¹⁶⁶ Dywedodd y dylid cynnig y gwasanaeth hwn "am ddim ... er mwyn rhoi arweiniad iddynt".¹⁶⁷

170. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymwybodol bod cyflwyno ymatebion i ymgynghoriad yn ddwyieithog "yn fater eithaf sensitif ac ychydig yn gymhleth ar adegau".¹⁶⁸ Dywedodd y byddai "yn disgwyl i bethau fel ymatebion i ymgynghoriadau gan gyrff cyhoeddus fod yn y ddwy iaith", ond roedd o'r farn fod y penderfyniad i gyfieithu pob ymateb a gyflwynir mewn un iaith "yn fater i'w drafod".¹⁶⁹

171. Nododd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod llunio crynodeb o ymateb yn y Gymraeg yn hytrach na'i gyfieithu i gyd yn awgrym defnyddiol.¹⁷⁰

172. Nid oedd Cymdeithas Cyfiethwyr Cymru yn cytuno â'r farn hon, ac awgrymodd: "mae crynhoi dogfen yn cymryd gymaint o amser â chyfieithu'r ddogfen yn y lle cyntaf", a hefyd y gellid ystyried ymagwedd o'r fath fel "sarhad" i'r rheini a ddrafftiodd y cyfraniad gwreiddiol.¹⁷¹

¹⁶⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 2

¹⁶⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 5

¹⁶⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 104, 7 Mawrth 2012

¹⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 1 Mawrth 2012

¹⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 1 Mawrth 2012

¹⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 1 Mawrth 2012

¹⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 7 Mawrth 2012

173. Mynegodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg farn debyg ar y pwynt hwn.¹⁷²

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

174. O ran cyfieithu ymatebion i ymgynghoriadau, dywedodd y Comisiynydd wrthym:

“Nid ydym yn y busnes o gyfieithu ar ran cyrff allanol—nid dyna’n cyfrifoldeb ni—ond byddwn yn sicrhau bod y dystiolaeth ar gael i ganiatáu i Aelodau gyflawni eu gwaith yn y naill iaith neu’r llall. Y pwynt sylfaenol yw nad yw’r egwyddor o drin y naill iaith a’r llall yn gyfartal yn golygu bod rhaid i bopeth gael ei gyfieithu.”¹⁷³

175. Ychwanegodd yn ddiweddarach:

“Byddwn yn ei gwneud yn glir iawn i gyrff a mudiadau sy’n cyflwyno tystiolaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod disgwyliad i’r dystiolaeth fod ar gael yn y naill iaith a’r llall ...”¹⁷⁴

a dywedodd hefyd:

“... os bydd y dystiolaeth yn cael ei chyflwyno yn y Gymraeg yn unig ... byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y dystiolaeth honno yn cael ei chyflwyno i Aelodau fel eu bod yn ymwybodol o’r cynnwys. Nid yw hwnnw’n ymrwymiad i gyfieithu’r ddogfen yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, byddai’n galluogi rhywun nad yw’n deall y Gymraeg i fod yn ymwybodol o gynnwys y dystiolaeth.”¹⁷⁵

176. Ailadroddodd y farn hon pan holwyd ef ymhellach:

“Nid wyf yn gweld cyfieithu ar ran cyrff eraill yn gyfrifoldeb i’r Comisiwn ... Os oes tystiolaeth wedi’i chyflwyno yn y Gymraeg, paratown grynodedb yn y Saesneg. Os dechreuwn wneud y gwaith cyfieithu, bydd pawb yn manteisio ar y sefyllfa honno. Ein gwaith yw gosod esiampl ac ysbrydoli cyrff eraill ledled

¹⁷² Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3, Tystiolaeth Atodol

¹⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 264, 9 Chwefror 2012

¹⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 316, 9 Chwefror 2012

¹⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 317, 9 Chwefror 2012

Cymru i weithredu'n ddwyieithog. Nid yw gwneud y gwaith drostynt yn mynd i gyflawni hynny."¹⁷⁶

177. Fodd bynnag, nododd y byddai'n ystyried ymhellach y materion a godwyd ynghylch crynhoi ymatebion i ymgynghoriadau a gyflwynwyd yn Gymraeg yn unig.¹⁷⁷

Ein barn ni

Rydym eisoes wedi argymhell ein bod yn credu y dylid bod system ar gyfer categoreiddio pa ddogfennau y dylid eu cyhoeddi yn y ddwy iaith swyddogol.

Argymhelliad 10

O gofio'r dystiolaeth a glywsom gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, rydym yn argymhell bod y Comisiynydd yn ailystyried y materion o amgylch y broses o grynhoi'r ymatebion i ymgynghoriadau a geir yn Gymraeg yn unig.

Argymhelliad 11

O ganlyniad, rydym hefyd yn argymhell y dylai'r Comisiynydd ailystyried drafftio paragraff 51 o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft ac, os yw'n penderfynu derbyn argymhelliad 10, ystyried goblygiadau'r argymhelliad hwnnw o ran yr ymatebion i ymgynghoriadau a geir yn un o'r ieithoedd swyddogol yn unig.

Sgiliau dwyieithog a recriwtio

Tystiolaeth gan dystion

178. Mae paragraff 100 o'r Cynllun drafft yn nodi y dylid paratoi strategaeth sgiliau dwyieithog ddrafft erbyn mis Mawrth 2012 i hwyluso twf yn y defnydd o sgiliau dwyieithog yn y Cynulliad. Mae'n rhestru'r ffactorau a gaiff eu hystyried wrth ei pharatoi.

179. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg o'r farn bod "diffyg sgiliau dwyieithog staff y Cynulliad yn broblem sylfaenol y mae angen mynd i'r afael â hi mewn modd trwyadl a chadarn" a bod angen cynllun

¹⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 21 Mawrth 2012

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 128, 21 Mawrth 2012

strategol “i wella sgiliau iaith yr holl staff yn sylweddol dros gyfnod penodol o amser.”¹⁷⁸ Roedd yn dadlau:

“... mae angen symud at sefyllfa lle mae rhagdybiaeth bod angen rhugledd yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd yn y Cynulliad, a bod yr holl staff yn gweithio tuag at gynyddu eu lefel o sgil yn Gymraeg. Mae angen i'r Cynulliad ei gwneud yn eglur i'w staff mai cyfle yw hynny ac nid bygythiad, cyfle i ddysgu sgil cynyddol werthfawr yng Nghymru drwy fuddsoddiad y Cynulliad yn ei staff.”¹⁷⁹

180. Wrth ddod i'r farn hon, roedd yn cydnabod bod hyn yn “golygu buddsoddi mewn hyfforddiant i staff”, a nododd:

“Nid yw awr yr wythnos yn ddigon—mae angen bod yn deg â'r bobl ddi-Gymraeg sy'n gweithio i'r sefydliad hefyd a rhoi cyfle iddynt gael sgiliau llawn. Gydag awr neu ddwy o hyfforddiant y dydd, gallech ddod yn weddol rhugl mewn blwyddyn.”¹⁸⁰

181. Ychwanegodd:

“Mae angen strategaeth lawer cadarnach ym maes hyfforddi staff, ac mae angen nodi'r strategaeth honno a thargedau i gyd-fynd â hi yn eglur yn y Cynllun Ieithoedd ei hun.”¹⁸¹

182. Awgrymodd yr Uned Ymchwil Iaith yr hyn a ganlyn ynghylch y strategaeth sgiliau dwyieithog:

“Byddai'n well petai hynny'n rhan integredig o'r cynllun iaith yn hytrach na bod rhyw fath o ymrwymiad ar wahân. Byddai gosod strategaeth felly yn rhan o gynllun iaith yn gliriach ac yn gryfach, a byddai pawb yn deall lle maent yn sefyll.”¹⁸²

183. Fel y nodwyd ynghynt, awgrymodd hefyd y dylai'r gofyniad am strategaeth sgiliau dwyieithog fod ar wyneb y Bil.¹⁸³

184. Cyfeiriodd y PCS mewn manylder ac yn eang at sgiliau ieithyddol a recriwtio.¹⁸⁴

¹⁷⁸ Tytsiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹⁷⁹ Tytsiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

¹⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 7 Mawrth 2012

¹⁸¹ Tytsiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3A, Tytsiolaeth Atodol

¹⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 15 Mawrth 2012

¹⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 15 Mawrth 2012

185. Nododd y PCS, er bod y Cynllun yn cyfeirio mewn sawl man at y bwriad i'r Cynulliad fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, nid oedd y term wedi'i ddiffinio'n benodol, er yr ymddengys ei fod wedi'i seilio ar fodloni safonau gwasanaeth penodol, yn ogystal â chynyddu sgiliau Cymraeg staff y Cynulliad yn barhaus.¹⁸⁵

186. Roedd y PCS yn pryderu ynghylch sut y penderfynwyd ar y dull o fodloni'r safonau gwasanaeth hynny, heb ymgynghori â chynrychiolwyr y staff. Eglurodd pam ei fod yn credu hynny:

“Mae hyn am fod y Cynllun fel pe bai'n nodi llwybr clir ar gyfer y dyfodol, lle yr ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi yn y Cynulliad.”¹⁸⁶

187. Mae'r enghreifftiau y mae wedi'u darparu i amlygu'r dull hwn yn cynnwys y ffaith nad yw'n ymddangos bod llawer o gyllid ychwanegol ar gael i hyfforddi staff a'r datganiad ym mharagraff 44 o'r Cynllun drafft ynghylch y ffaith bod bwriad i gymryd pob cyfle i gynyddu nifer y staff dwyieithog i fodloni uchelgais y Cynulliad, sy'n peri gwir bryder i nifer o staff o ran y rhagolygon ar gyfer eu gyrfaedd yn y dyfodol.¹⁸⁷

188. Yn ogystal â chyfeirio at y pryder a fynegwyd y byddai cyfleoedd gyrfaol ac i gael dyrchafiad yn cael eu cyfyngu'n gynyddol i siaradwyr Cymraeg, cyfeiriodd y PCS hefyd at y pryderon y byddai'n “fwyfwy anodd i'r Cynulliad gyflawni ei ddyletswyddau ehangach fel cyflogwr cyfle cyfartal.”¹⁸⁸

189. Wrth wneud y sylwadau hyn, roedd y PCS yn cefnogi'r “ymdrechion i helpu i gryfhau sgiliau Cymraeg staff drwy ddulliau gwirfoddol a drwy ddarparu gwell cymorth a hyfforddiant”.¹⁸⁹

190. I gloi, dywedodd:

“Efallai bod achos i'w gyflwyno bod angen i bob aelod o staff y Cynulliad fod yn ddwyieithog. Os ydym am ddilyn y trywydd hwnnw, mae angen trafodaeth onest ac agored gyda'r staff presennol i esbonio hynny. Rhaid ystyried goblygiadau gwneud

¹⁸⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

¹⁸⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

¹⁸⁶ ibid

¹⁸⁷ ibid

¹⁸⁸ ibid

¹⁸⁹ ibid

hynny yn llawn, gan gynnwys goblygiadau ariannol, ewyllys da a chydoldeb. Yr hyn y mae angen ei osgoi yw symudiad graddol tuag at sefyllfa o'r fath heb drafodaeth onest ac agored gyda'r cyhoedd a staff presennol y Cynulliad."¹⁹⁰

191. Awgrymodd yr Uned Ymchwil Iaith y dylai'r arfer gorau mewn perthynas â recriwtio a hyfforddiant sgiliau dwyieithog ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.¹⁹¹

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

192. O ran sgiliau dwyieithog, dywedodd y Comisiynydd:

“Rydym yn ceisio cynorthwyo a hwyluso staff i feistroli rhyw gymaint o Gymraeg, i gyfarch pobl yn y Gymraeg, er enghraifft, a chyflwyno rhai cyfarwyddiadau. Rydym yn cynnig cymorth i wneud hynny. Mae darpariaeth eang o ran cynorthwyo Aelodau a staff i ddysgu'r Gymraeg. Yn y pen draw, y cyfan y gallwn ei wneud yw hybu a chaniatáu hynny.”¹⁹²

193. Dywedodd hefyd:

“Yr hyn rydym yn ceisio'i wneud yw creu'r ethos hwn o sefydliad sy'n naturiol ddwyieithog, lle caiff y ddwy iaith eu clywed.”¹⁹³

194. Cadarnhaodd y Comisiynydd hefyd y byddai'r strategaeth ddwyieithog yn cael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2012.¹⁹⁴

195. Eglurodd un o swyddogion y Comisiwn fod “ffyrdd i fonitro perfformiad a datblygiad pob aelod o staff”¹⁹⁵ sy'n “cynnwys ystyriaeth o ba lefel o sgiliau yn y ddwy iaith sydd eu hangen arnynt i wneud eu swydd yn y ffordd orau posibl”.¹⁹⁶ Ychwanegodd mai un o amcanion y strategaeth sgiliau dwyieithog “fydd ystyried ffyrdd amgen, mwy effeithiol o safbwynt yr angen i ennill y sgiliau hynny”¹⁹⁷, ac

¹⁹⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

¹⁹¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 4

¹⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 347, 9 Chwefror 2012

¹⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 357, 9 Chwefror 2012

¹⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 366, 9 Chwefror 2012

¹⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 348, 9 Chwefror 2012

¹⁹⁶ ibid

¹⁹⁷ ibid

ychwanegodd mai “y peth allweddol yw bod yn rhaid i’r pethau hyn i gyd fod yn berthnasol i’r swyddi y mae pobl yn eu dal yma”.¹⁹⁸

196. Cyflwynodd Comisiwn y Cynulliad dystiolaeth atodol ynghylch darparu hyfforddiant ieithyddol yn y Trydydd Cynulliad.¹⁹⁹

Ein barn ni

Rydym eisoes wedi argymhell y dylid cynnwys strategaeth sgiliau dwyieithog yn y Cynllun yn ogystal â gofyniad penodol i’r perwyl hwn ar wyneb y Bil.

Wrth ddod i’r casgliad hwn, rydym yn ymwybodol o’r gefnogaeth gref i gynllun gweithredu a thargedau a phwysigrwydd dogfennau o’r fath i’r tystion.

Argymhelliad 12

Fel nad oes unrhyw amheuaeth, rydym yn argymhell yn gryf y dylid diwygio’r Cynllun i gynnwys strategaeth sgiliau dwyieithog, os nad yw’r Comisiynydd yn bwriadu diwygio’r Bil fel yr awgrymir yn Argymhelliad 2.

Credwn y byddai cynnwys strategaeth sgiliau dwyieithog yn y Cynllun yn galluogi dull mwy integredig a chydlynol o ddarparu gwasanaethau dwyieithog gan Gomisiwn y Cynulliad.

Ar sail y dystiolaeth a gawsom, rydym yn ystyried bod yn rhaid i’r strategaeth sgiliau dwyieithog gynnwys targedau ac amcanion clir a nodi’n glir sut y cânt eu cyrraedd â’u bodloni.

Argymhelliad 13

Nodwn fod y strategaeth sgiliau dwyieithog eisoes wedi’i chwblhau. Os na ddilynir y dull a awgrymwn, rydym yn argymhell y dylid ei adolygu i sicrhau bod hynny’n digwydd.

Argymhelliad 14

Rydym wedi nodi barn undeb y PCS a geir ym mharagraff 190 o’r adroddiad a rhannwn ei bryderon. O gofio y bydd y strategaeth

¹⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 348, 9 Chwefror 2012

¹⁹⁹ Comisiwn y Cynulliad, Tystiolaeth Atodol

sgiliau dwyieithog yn cael effaith uniongyrchol ar staff Comisiwn y Cynulliad, rydym yn argymhell y dylid ymgynghori â staff a'r PCS yn ei chylch fel rhan o'r ymarfer ymgynghori y cyfeirir ato yn Argymhellion 5 a 6.

Gwnawn ragor o sylwadau ar y strategaeth sgiliau dwyieithog yn yr adran ar baragraff 103 o'r Cynllun a phennod 7 ar y Goblygiadau Ariannol.

Paragraff 103 o'r Cynllun

Tystiolaeth gan dystion

197. Mae paragraff 103 o'r Cynllun yn nodi:

“Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd yr ystyrir bod y Gymraeg yn 'hanfodol' ar ei chyfer os oes dealltwriaeth y rhoddir amser iddo ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, bydd dysgu'r iaith i'r lefel disgwylidig, a hynny o fewn cyfnod rhesymol o amser y cytunir arno, yn faen prawf perfformiad penodol.”

198. Mae'r PCS yn credu “fod paragraff 103 yn hollol afrealistig o ran y mwyafrif o swyddi heblaw'r rheini ar y lefelau uchaf oll.”²⁰⁰

Tystiolaeth y Comisiynydd

199. Nid oedd y Comisiynydd yn cytuno â barn y PCS²⁰¹ a nododd y byddai'r egwyddorion yn berthnasol ar gyfer pob lefel staffio.²⁰²

200. Pan holwyd y Comisiynydd ynghylch a ellid diswyddo staff am fethu â chyrraedd lefel benodol o hyfedredd yn y Gymraeg, crynhodd ei safbwynt drwy ddweud:

“Byddwn am sicrhau staff presennol y Cynulliad nad yw'r sefyllfa yn berthnasol iddynt hwy, rhag bod unrhyw awgrym y gallai eu swyddi fod o dan fygythiad oherwydd eu bod yn methu â chyrraedd rhyw safon neu wedi dewis peidio â gwneud hynny. Pe bai cytundebau newydd yn cael eu cyflwyno, a bod y

²⁰⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

²⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 194, 21 Mawrth 2012

²⁰² Cofnod y Trafodion, paragraffau 195-196, 21 Mawrth 2012

cytundebau hynny'n nodi bod disgwyl i staff ehangu eu sgiliau yn y Gymraeg neu ddysgu'r Gymraeg a'u bod yn methu â chyrraedd y safon, yn yr un modd ag y mae unrhyw un sy'n cael ei gyflogi yn methu â chyrraedd safonau a osodir yn ei gytundeb gwaith, byddai lle i adolygu'r cytundeb. Ni chredaf y gallwn ddweud mwy am hynny ar hyn o bryd."²⁰³

Ein barn ni

Argymhelliad 15

Ar ôl ystyried y dystiolaeth mewn perthynas â pharagraff 103 o'r Cynllun, rydym yn argymhell y dylid ei ailddrafftio i roi mwy o eglurder ynghylch sut y bydd y polisi'n cael ei roi ar waith a beth y mae'n ei olygu'n ymarferol i'r staff presennol a staff newydd.

Argymhelliad 16

Wrth ailddrafftio'r paragraff hwn, rydym yn argymhell y dylid ei gysylltu a'i groesgyfeirio â'r darpariaethau priodol yn y strategaeth sgiliau dwyieithog. Credwn y dylai'r strategaeth hwn amlinellu'r lefelau sgiliau sydd eu hangen ar gyfer meysydd gwasanaeth a swyddi penodol.

Argymhelliad 17

Rydym hefyd yn argymhell y dylid trafod y materion sy'n peri pryder i undeb y PCS gyda Chomisiwn y Cynulliad fel rhan o'r cyfarfod y cyfeirir ato yn Argymhelliad 6.

²⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 207, 21 Mawrth 2012

7. Goblygiadau Ariannol

Cefndir

201. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mewn gwirionedd, mae darpariaethau'r Bil yn cynyddu'r angen i Gomisiwn y Cynulliad ddarparu cynllun sy'n amlinellu ei wasanaethau dwyieithog. Felly, bydd y costau yn seiliedig ar gwmpas y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mewn cysylltiad â'r dyletswyddau a gaiff eu gosod ar y Comisiwn o dan y Bil.”²⁰⁴

202. Nodir y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil a'r Cynllun yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

Tystiolaeth gan dystion

203. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wrthym:

“Mae'r memorandwm yn dangos bod y gwariant ar wasanaethau Gymraeg wedi gostwng yn sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf - toriad o 12% heb ystyried chwyddiant - tra bod cyllideb Comisiwn y Cynulliad yn ei chyfanrwydd wedi codi. Os gellir cynnig yr un gwasanaethau am bris gostyngol, byddem yn cefnogi hynny, ond mae gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y cyfnod gyda diflaniad y Cofnod dwyieithog i ddechrau, a bellach gyda'r pum diwrnod o oedi sydd rhwng cyhoeddi Cofnod Saesneg a chyhoeddi Cofnod dwyieithog ...”²⁰⁵

204. Wrth drafod costau cyfieithu, dywedodd:

“O ran y gost, byddai cost, wrth gwrs, ond, os yw'r Cynulliad am fod yn sefydliad dwyieithog mewn gwirionedd, bydd cost ynghlwm wrth hynny. Mae hi'n fater o ddemocratiaeth, yn ein barn ni, bod popeth ar gael yn y Gymraeg.”²⁰⁶

²⁰⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

²⁰⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 3

²⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 100, 7 Mawrth 2012

205. Mynegodd undeb y PCS bryderon ynghylch y gost sy'n gysylltiedig â dod yn "sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n galluogi ... staff i weithio yn y ddwy iaith". Dywedodd:

"Rydym yn bryderus ynglŷn â'r hyn y bydd yn ei olygu i staff yn ymarferol gan fod y mwyafrif ohonynt (tua 67%) yn ddi-Gymraeg. Fodd bynnag, os yw'r uchelgais i fod yn ystyrllon, ymddengys yn annhebygol y bydd cyllideb o £17,000 y flwyddyn ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg ar gyfer staff y Cynulliad (tua £70 y flwyddyn ar gyfer pob Aelod o staff nad ydynt yn medru'r Gymraeg) yn gwneud fawr mwy na chrafu'r wyneb."²⁰⁷

206. Dywedodd hefyd ei bod yn ymddangos mai ychydig iawn o adnoddau ychwanegol a oedd ar gael:

"Os yw'r Cynllun drafft am gyflwyno gwelliannau sylweddol o ran darpariaeth, mae'n anodd gweld sut y gellid cyflawni hyn pan yr ymddengys fod yr adnoddau sydd ar gael yn gostwng mewn termau real. Gan hynny casglwn, os yw'r cynllun i arwain at welliannau yn lefel y gwasanaethau a ddarperir, yr unig ffordd o wneud hynny fydd recriwtio llawer mwy o staff sy'n medru'r Gymraeg."²⁰⁸

207. Nododd undeb y PCS nad oedd unrhyw arian wedi'i gynnwys ar gyfer y costau ychwanegol o fonitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun. Dywedodd:

"Ar hyn o bryd mae cost ymwad yn gysylltiedig â'r amser a dreulir gan staff yn monitro cydymffurfiaeth. Gellid disgrifio'r rhain fel trefniadau monitro 'llai trylwyr' ar y gorau. Nid yw'n eglur i ba raddau bydd monitro'r dyfodol yn fwy manwl nag yr oedd yn y gorffennol. Mae paragraff 68 y Cynllun drafft yn amlinellu trefniadau monitro arfaethedig y dyfodol. Os yw pob achos o beidio â chydymffurfio i'w nodi a'i gofnodi yn y modd a awgrymwyd gallai fod yn dasg fiwrocraidaidd iawn a fydd yn

²⁰⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

²⁰⁸ *ibid*

mynd ag amser ac a fydd yn effeithio ar allu staff i wneud gwaith arall.”²⁰⁹

208. Pwysleisiodd yr Uned Ymchwil Iaith bwysigrwydd ariannu ymrwymadau mewn modd priodol:

“O ran y costau, rwy’n siŵr bod gweision y Comisiwn a’r Cynulliad wedi bod yn ddiwyd wrth weithio mas y ffigurau—nid ydym yn awgrymu bod diffygion ynghylch hynny. Fodd bynnag, mae gweithredu ymrwymadau yn fater arall. Os oes ymrwymiad statudol i wneud rhywbeth, ni ddylai fod yn amodol ar sicrhau bod digon o staff ar gael neu rywbeth felly. Naill ai mae ymrwymiad yn cael ei gwrdd neu nid ydyw. Os nad yw’n cael ei gwrdd, mae problem gyda’r sefydliad sydd wedi cytuno i’r ymrwymiad. Er mwyn sicrhau eich bod mewn sefyllfa i gwrdd â’ch ymrwymadau, dylech osod yr adnoddau angenrheidiol yn eu lle.”²¹⁰

209. Fodd bynnag, credai Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru fod y dadleuon ynghylch gwariant yn amherthnasol. Dywedodd:

“Gan fod y Mesur Iaith yn datgan bod y Gymraeg a’r Saesneg yn ieithoedd swyddogol Cymru, ac felly yn gyfartal o ran statws, mae unrhyw ddadleuon ynghylch gwariant yn amherthnasol.”²¹¹

210. Pan holwyd pam ei fod o’r farn hon, dywedodd:

“Mae’n amherthnasol achos y Cynulliad hwn sydd wedi gwneud y ddwy iaith yn ieithoedd swyddogol yng Nghymru. Os ydych yn gwneud y datganiad hwnnw, ni ddylid trin y ddwy iaith yn wahanol. Mae’r ddwy iaith yn gyfartal ac felly dylid edrych ar y ddeddfwriaeth o safbwynt y ffaith bod y ddwy iaith yn gyfartal, gan beidio â nodi costau ychwanegol yn ymwneud â’r iaith Gymraeg pan fo’r costau hynny’n bodoli’n barod o ran yr iaith Saesneg. Mae darparu unrhyw wasanaeth yn Saesneg yn costio arian, ond nid yw costau’r Cynulliad wrth weithredu yn Saesneg wedi’u nodi unrhyw le yn y memorandwm esboniadol. Felly, er

²⁰⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 10

²¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 15 Mawrth 2012

²¹¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, OLB 5

bod costau, nid oes sôn am y rheini o gwbl. Os yw'r ddwy iaith yn swyddogol ac yn gyfartal, pam sôn am y costau sydd ynghlwm wrth weithredu yn Gymraeg? ... Dyna lle mae'r anghyfartaledd, a dyna lle nad yw'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.”²¹²

Tystiolaeth gan y Comisiynydd

211. Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd sut y cyfrifwyd y costau yn y Memorandwm Esboniadol, dywedodd eu bod “yn seiliedig ar brofiad y gorffennol.”²¹³

212. O ran costau'r gwasanaethau cyfieithu, eglurodd un o swyddogion Comisiwn y Cynulliad:

“Mae'r costau i gyd yn seiliedig ar ein hymwybyddiaeth o natur y gwasanaethau fel ag y maent. Mae'r ddarpariaeth benodol newydd o fewn y cynllun wedi cael ei bwydo i mewn hefyd. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i unrhyw newidiadau yr ydym yn ymwybodol ohonynt yn y ddarpariaeth honno. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw newid sylweddol ar hyn o bryd yn y ddarpariaeth, felly'r cysylltiad â'r cynllun yw'r peth allweddol. Fel y gwelwch o'r memorandwm esboniadol, bydd nifer o gontractau yn cael eu tendro unwaith eto, a rhoddwyd ystyriaeth bellach i natur a strwythur y gwasanaethau hynny hefyd.”²¹⁴

213. Pan ofynnwyd am eglurhad ynghylch pam fod y gwariant rhagamcanol ar gyfer hyfforddiant iaith i staff Comisiwn y Cynulliad wedi gostwng rhwng 2010/11 a 2011/12, dywedodd un o swyddogion y Comisiwn wrthym:

“Gwasanaeth yn ôl y galw ydyw, felly rydym yn ddibynnol iawn ar y galw.”²¹⁵

214. Pwysleisiodd hefyd y gellid gwneud defnydd o adnoddau staff mewnol, yn ogystal â thiwora, i ddatblygu sgiliau ieithyddol drwy gael

²¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 141, 15 Mawrth 2012

²¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 256, 9 Chwefror 2012

²¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 262, 9 Chwefror 2012

²¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 355, 9 Chwefror 2012

ffyrdd arloesol i'r staff ddefnyddio'r Gymraeg ac i ymarfer ei siarad a thrwy sefydlu system fentora. Ychwanegodd:

“Nid yw hyn o reidrwydd yn costio arian. Rhaid i ni feddwl am ffyrdd amgen o sicrhau ein bod yn mewnosod y gallu hwnnw i ddysgu ac ymarfer y Gymraeg yn y gweithle.”²¹⁶

215. Wrth gyfeirio at yr adnoddau sydd ar gael i alluogi staff i ddod yn hyfedr o ran eu gallu i siarad Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg, dywedodd y Comisiynydd wrthym:

“Ar hyn o bryd, mae'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y ddarpariaeth honno yn ddigonol. Petai mwy o alw ar y ddarpariaeth, byddwn yn chwilio am fwy o adnoddau ariannol i sicrhau bod darpariaeth. Hynny yw, byddwn yn darparu yn ôl y galw i Aelodau a staff naill ai sydd am feistroli rhywfaint o'r Gymraeg neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg.”²¹⁷

216. Awgrymodd hefyd nad oedd y gyllideb ar gyfer yr hyfforddiant iaith hwn yn gyfyngedig oherwydd bod gan y Comisiwn gyfrifoldeb i “ddarganfod yr adnoddau hynny i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael”²¹⁸, ond cydnabu'n ddiweddarach yr hyn a ganlyn:

“... fy ngwaith i yw dadlau'r achos yn y Comisiwn am arian ychwanegol i sicrhau hynny. Mae rhyw gymaint o hyblygrwydd yng nghyllideb y Comisiwn. Mae'n hawdd i ni ddweud nad yw hyn yn fater o arian, ond, yn y pen draw, os oes gennym gyllideb, rhaid i ni weithio o fewn y gyllideb honno, a'r cwestiwn sydd yn codi bob amser yw sut mae modd defnyddio'r arian yn y gyllideb honno. Mae pob ewyllys da yn y Comisiwn i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gael i unrhyw un sy'n ei dymuno. Dyna'r egwyddor yr ydym yn ei sefydlu a rydym yn hyderus y gallwn ymateb i hynny yn ôl ein hadnoddau ariannol.”²¹⁹

217. Pan holwyd y Comisiynydd ynghylch sut y mae'r dull sy'n seiliedig ar alw ar gyfer hyfforddiant iaith yn gyson ag amcanion y Cynllun i

²¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 162, 21 Mawrth 2012

²¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 21 Mawrth 2012

²¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 21 Mawrth 2012

²¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 177, 21 Mawrth 2012

sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn wirioneddol ddwyieithog, eglurodd drwy ddweud:

“Yn amlwg, rhaid i ni sicrhau bod cydbwysedd rhwng gwella sgiliau ieithyddol y staff sydd gyda ni ar hyn o bryd—ac mae hynny o reidrwydd yn wirfoddol, er y byddwn yn cynnig pob cymhelliad a chymorth iddynt wneud hynny—a phenodi staff newydd pan fydd staff yn gadael. Mater o gydbwysedd ydyw i sicrhau bod y gwasanaethau ar gael trwy gyfrwng y ddwy iaith.”²²⁰

218. O ran y costau sy'n gysylltiedig â monitro'r Cynllun, dywedodd un o swyddogion y Comisiwn wrthym mai amser y staff fyddai'r gost ac y gellir “edrych ar beth fyddai hynny gan ein bod yn adrodd nôl yn flynyddol”.²²¹ Ychwanegodd un o gynghorwyr cyfreithiol y Cynulliad:

“Mae'r broses hon yn rhan o'r broses bresennol gyda'r cynllun iaith a'r adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Felly, nid oes cost ychwanegol yn gysylltiedig â hyn, oherwydd mae'n rhywbeth sy'n digwydd ar hyn o bryd.”²²²

219. Cadarnhaodd y Comisiynydd na fyddai unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i fonitro'r cynllun.²²³

Ein barn ni

Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i hystyried ar oblygiadau ariannol y Cynllun wedi amlygu i ni y diffyg eglurder ynghylch beth y mae Comisiwn y Cynulliad yn ceisio ei gyflawni drwy ei strategaeth gwasanaethau dwyieithog.

Yn ein hadroddiad, rydym wedi pwysleisio'r angen am gynllun gweithredu a strategaeth sgiliau dwyieithog sy'n cynnwys targedau ac amcanion penodol. Credwn yn gryf fod yn rhaid cael ymrwymiad i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyrraedd a bod yr amcanion penodol yn cael eu bodloni.

²²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 21 Mawrth 2012

²²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 181, 21 Mawrth 2012

²²² Cofnod y Trafodion, paragraff 182, 21 Mawrth 2012

²²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 21 Mawrth 2012

Yn ein barn ni, byddai'n annoeth gweithredu mewn dull penodol heb gael yr arian sy'n angenrheidiol i wneud hynny. Dyna pam ei bod yn bwysig i Gomisiwn y Cynulliad fod yn hollol glir ynghylch yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni gyda'i strategaeth gwasanaethau dwyieithog.

Cytunwn â sylwadau Comisiwn y Cynulliad fod darparu hyfforddiant iaith yn ymwneud nid yn unig â darparu cyllid ond hefyd â darparu'r cyfleoedd priodol i ddatblygu sgiliau iaith.

Fodd bynnag, mae galluogi staff i ddod o hyd i amser i fynd ar gyrsiau iaith ac i ymarfer a datblygu eu sgiliau iaith yn y gwaith hefyd yn bwysig ac ni ddylid anghofio hynny. Rhaid cydnabod bod costau ariannol yn gysylltiedig â materion fel amser staff a chapasiti.

Argymhelliad 18

O ganlyniad, rydym yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad, fel rhan o'i strategaeth sgiliau dwyieithog a'r targedau sydd ynddi, nodi'n glir sut y sicrheir bod gan staff amser nid yn unig i fynd ar gyrsiau iaith priodol ond hefyd i fanteisio ar gyfleoedd datblygu iaith yn y gwaith, neu i'w darparu.

Argymhelliad 19

Unwaith eto, nodwn fod y strategaeth sgiliau dwyieithog eisoes wedi'i chwblhau. Os nad yw'n dilyn y dull a awgrymwyd gennym yn Argymhelliad 18, rydym yn argymhell y dylid ei adolygu i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Credwn fod costau sylweddol yn gysylltiedig â'r Bil a'r Cynllun fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd na chawsant eu hegluro'n glir yn ein barn ni.

Rydym hefyd yn cydnabod y gellir bod costau ychwanegol o ganlyniad i wneud Argymhellion 1 a 2.

Argymhelliad 20

Felly, rydym yn argymhell yn gryf y dylai Comisiwn y Cynulliad, pa bynnag ddull y mae'n penderfynu ei ddefnyddio ar gyfer y Bil a'r

Cynllun, sicrhau bod digon o arian ar gael ac wedi'i ymrwymo i fodloni'r amcanion a'r ymrwymadau sydd ynddynt.

8. Tystion

220. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1306>

9 Chwefror 2012

Rhodri Glyn Thomas AC Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg

1 Mawrth 2012

Meirion Prys Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Gwenith Price, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Strategol Bwrdd yr Iaith Gymraeg

1 Chwefror 2012

Colin Nosworthy Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Ceri Phillips Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Osian Rhys Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Berwyn Prys Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

15 Mawrth 2012

Dr Diarmait Mac Giolla Christ Yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Dr Simon Brooks Yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

David Thomas

Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-
Ddwyrain Cymru

Cath Baldwin

Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-
Ddwyrain Cymru

Ffion Gruffudd

Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-
Ddwyrain Cymru

21 Mawrth 2012

Rhodri Glyn Thomas AC

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros
y Gymraeg

9. Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

221. Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=2413>

<i>Enw / Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Bwrdd yr Iaith Gymraeg	OLB 1
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	OLB 2
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	OLB 3
Tystiolaeth Ychwanegol - Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	OLB 3A
Yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd	OLB 4
Tystiolaeth Ychwanegol - yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd	OLB 4A
Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru	OLB 5
Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg De-ddwyrain Cymru - Atodiad A	OLB 5A
Bethan Williams, Ymateb gan Unigolyn	OLB 6
Angharad Clwyd, Ymateb gan Unigolyn	OLB 7
Catrin Dafydd, Ymateb gan Unigolyn	OLB 8
Menna Machreth, Ymateb gan Unigolyn	OLB 9
Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol	OLB 10
Osian Rhys, Ymateb gan Unigolyn	OLB 11